gwybod am y Cynnig Gofal Plant cyn dod yn gymwys. Mae hon yn gyfran debyg o rieni a nododd yr un peth yn ystod gwerthusiad blwyddyn pedwar, sef 75% (Harries et al., 2023, t.33). Yn Lloegr, mae data'n datgelu y gall rhieni lleiafrifoedd ethnig ac incwm is fod â llai o ymwybyddiaeth o'u hawliau, gyda dim ond 61% o rieni o leiafrifoedd ethnig yn ymwybodol o'r hawl gyffredinol i blant tair a phedair oed yn Lloegr, o'i gymharu ag 85% o rieni gwyn (Albakri et al., 2018).

Yn yr Alban, roedd rhieni â Saesneg fel ail iaith neu iaith ychwanegol a'r rhai o ardaloedd difreintiedig hefyd yn fwy tebygol o gael anhawster cael gafael ar wybodaeth am opsiynau ELC, gyda rhieni mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol nag eraill o ddweud nad ydynt yn defnyddio eu hawl lawn ac nad oedd canran sylweddol o rieni plant dwy oed (25%) yn ymwybodol o opsiynau gofal plant wedi'u hariannu: "Doeddwn i ddim yn ymwybodol mai dim ond hawl i 22.5 awr yr wythnos fyddai gen i gan fod yr holl beth yn cael ei 'hysbysebu' fel 30 awr wedi'i hariannu." (Llywodraeth yr Alban, 2022, t. 34). Yn Lloegr, roedd dryswch ymhlith teuluoedd lleiafrifoedd ethnig a difreintiedig ynghylch meini prawf cymhwysedd, gan arwain at ragdybiaethau o anghymhwysedd ar gyfer Hawliau Addysg Gynnar am Ddim (Albakri et al., 2018, t. 52). Roedd gan rieni yn Lloegr lawer o gamsyniadau hefyd ynghylch sut roedd statws cyflogaeth a budd-daliadau lles yn effeithio ar gymhwysedd, '... a fydd hyn yn cael ei dynnu o'm cyflog? A fydd yn rhaid i mi dalu tâl ychwanegol? Mae'n dal ychydig yn ddryslyd." (Albakri et al., 2018, t. 53). (t. 10). Mynegodd rhai ddryswch hefyd am y gwahanol fathau o hawliau a sut maent yn newid wrth i'r plentyn dyfu (Albakri et al., 2018).

Wrth gyfwrdd â chyplau a rhieni unigol sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn Lloegr, canfu'r astudiaeth gan Wood (2021) fod ymwybyddiaeth isel, gyda 30 allan o 49 o gyfranogwyr yn Lloegr heb fod yn ymwybodol o elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol. Roedd tystiolaeth hefyd o wybodaeth anghywir neu gamdealltwriaeth am yr elfen gofal plant, gyda rhai cyfranogwyr â gwybodaeth anghywir am ofynion cymhwysedd neu sut roedd y system yn gweithio. Nododd rhai rhieni y gallai'r diffyg ymwybyddiaeth hwn fod wedi llesteirio eu gallu i ddychwelyd i'r gwaith neu drefnu gofal plant. "lawn, wel ie, byddai hynny'n wych... Rydw i wedi bod eisiau gweithio nawr ers tro." (t.209). Pan oedd rhieni'n ymwybodol, roeddent yn fwy tebygol o fod wedi clywed ar lafar neu gan ddarparwyr gofal plant, gan siarad am rôl a gwerth rhwydweithiau cymunedol wrth wneud penderfyniadau gofal plant fel rhieni.

Roedd dryswch ynghylch rhagofynion ar gyfer mynediad i leoliadau gofal plant wedi'u cymeradwyo gan y llywodraeth yn Awstralia yn tynnu sylw at y diffyg gwybodaeth hygyrch ar gyfer teuluoedd brodorol, gyda chamdybiaethau mai dim ond ar gyfer rhieni sy'n gweithio oedd y gwasanaethau hyn (Jackiewicz et al., 2011).

4.1.2 Cymuned a rhwydweithiau

Gall y rhwydwaith cymunedol ehangach hwyluso mwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau ECEC i rieni difreintiedig. Er enghraifft, yn Lloegr, canfu Albakri et al. (2018) fod rhieni yn aml yn dysgu am eu dewisiadau gofal plant, gan gynnwys hawliadau, drwy sianeli anffurfiol, megis ar lafar, gan rieni eraill. Roedd hyn yn gyson ar draws rhieni o Lundain a heb fod o Lundain. Mae canfyddiadau tebyg yn cael eu hadrodd yng Nghymru, lle mae llawer o rieni incwm isel yn clywed am y cynnig gofal plant ar lafar, gan rieni neu ddarparwyr eraill. Fodd bynnag, mae Albarkri et al. (2018) hefyd yn nodi y gall y ddibyniaeth hon ar rhwydweithiau anffurfiol fod yn rhwystr i rieni nad oes ganddynt gysylltiadau da yn eu cymuned, fel y rhai sy'n newydd i'r ardal. Yn yr un modd, ceisiodd teuluoedd mewnfudwyr a ffoaduriaid yn Lloegr, Ffrainc, yr Almaen a'r Eidal ddod o hyd i raglenni y credent y byddent yn diwallu anghenion eu plentyn ar y pryd ac yn y dyfodol, gan ddibynnu ar eiriau rhieni eraill oedd

wedi cyrraedd yn ddiweddar (Tobin, 2020). Dywedodd rhieni o grwpiau amlddiwylliannol yn Awstralia eu bod wedi dewis gwasanaethau yn y blynyddoedd cynnar, fel ysgolion cyn-ysgol, yn seiliedig ar ethnigrwydd defnyddwyr a staff eraill, yn enwedig os oeddent yn rhannu iaith gyffredin (Hopkins et al., 2017); Chwaraeodd rhwydweithiau cymunedol a pherthnasoedd ran hanfodol wrth rannu gwybodaeth am ba wasanaethau a ddefnyddiwyd neu a argymhellwyd gan unigolion o gefndiroedd tebyg.

Mae Klaus (2019) yn archwilio'r Gwasanaethau Cymorth Addysg i Deithwyr (TESS) ar gyfer teuluoedd Roma yn y DU, gan dynnu sylw at bwysigrwydd rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o raglenni ond, ar yr un pryd, rhwystredigaeth staff gan ddiffyg dulliau i hyrwyddo gwasanaethau. O ganlyniad, roedd dibyniaeth ar adnoddau a gwybodaeth leol, a oedd yn cyfyngu ar ledaeniad ymwybyddiaeth i'r gymuned leol. O'r herwydd, efallai bod teuluoedd mewn rhanbarthau eraill a allai fod wedi cael manteision o'r rhaglen wedi'u heithrio. Heb system wybodaeth neu gymorth ganolog, gall teuluoedd gael eu gorfodi i ddibynnu ar ddulliau cyfathrebu anffurfiol neu adnoddau lleol cyfyngedig i gael gafael gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt. I deuluoedd lleiafrifoedd ethnig a difreintiedig fel y Roma, a allai eisoes fod yn wynebu rhwystrau wrth gael gwybodaeth a gwasanaethau, gallai hyn fod yn her arbennig o anodd.

4.2 Thema 2: Derbynioldeb a cheisio gofal plant yn weithredol

Mae canfyddiadau teuluoedd o wasanaethau ECEC, fel eu buddion a'u hanfanteision, a normau diwylliannol a ffactorau cymdeithasol gwahanol grwpiau, yn dylanwadu ar agweddau tuag at ECEC ac yn chwarae rhan bwysig wrth i rieni wneud penderfyniadau ynghylch addysg gynnar eu plant.

4.2.1 Budd-daliadau canfyddedig ac ansawdd addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar

Mae ymchwil fyd-eang yn dangos bod gan nifer helaeth o rieni ganfyddiad cadarnhaol o ECEC a'u bod yn argyhoeddedig o fanteision y rôl wrth ddatblygu sgiliau cymdeithasol eu plant (Guilfoyle, 2010; Mhic a Nic, 2021; Mitchell ac Ouko, 2012) a chael eu plant yn barod ar gyfer yr ysgol (ee, gwrando ar athrawon a dysgu defnyddio'r toiled), yn ogystal â rhoi rhywfaint o orffwys a rhyddhad y mae dirfawr ei angen (Beatson et al., 2022, Llywodraeth yr Alban 2018, 2022) . Yn benodol, yn ôl Pastory et al. (2021), caniataodd ECEC i famau mewnfuldol Moroco yn yr Eidal fwy o ryddid i ddilyn addysg bellach a/neu gyflogaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gan wybod bod eu plant yn derbyn gofal. Yn yr un modd, roedd rhieni mewnfuldwyr mewn rhai gwledydd Ewropeaidd fel Lloegr, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal yn ystyried ECEC fel ffordd o ddarparu addysg a gwybodaeth i'w plant na allent ei wneud eu hunain, yn benodol o ran y sgiliau iaith leol lle nad oeddent yn rhugl (Tobin, 2020). Roedd rhieni mudol o India hefyd yn credu bod system ECEC Awstralia yn rhagori yn ei 'natur amlddiwylliannol, seilwaith uwch, ansawdd addysg, diwylliant chwaraeon, a gweithgareddau allgyrsiol', a helpodd i 'gyflymu dulliau dysgu a datblygiad cyfannol eu plant' tra hefyd yn cwrdd â 'galluoedd ac anghenion dysgu plant' (Patel ac Agbenyega, 2013, t.51). Mae'r ffactorau hyn yn enghraifft o hwyluswyr y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau ECEC gan rieni.

Roedd dryswch ynghylch ECEC yn cynnwys adroddiadau rhai rhieni, fel teuluoedd incwm isel yn Seland Newydd, yn ansicr o beth oedd cyfranogiad eu plant yn ECEC yn ei olygu (Mitchell a Meagher-Lundberg, 2017), tra nad oedd eraill yn gallu deall yn llawn faint o fuddion gwasanaethau ECEC ar gyfer datblygiad eu plant (Grace, 2012), gan feddwl amdanynt fel trefniadau gwarchod plant yn unig (Beatson et al., 2022; Jackiewicz et al., 2011).

Roedd canfyddiadau negyddol yn cynnwys pryderon ynghylch ansawdd is na'r safon o ran gwasanaethau ECEC. Yn benodol, cododd mamau yn Sweden faterion yn ymwneud â throsiant staff uchel, nifer fawr o athrawon dirprwyol, a diffyg staff cymwys' yn gweithio mewn ysgolion cyn-ysgol (Garvis, 2021, t.393). Amlygodd rhieni mewn ardaloedd gwledig yng Nghnada hefyd ddiffyg 'rhaglenni llythrennedd / rhifedd ffurfiol' yn eu hardal (Graham ac Underwood, 2012). Cododd rhai eraill fater heriau yn ymwneud â chofrestru eu plant mewn 'ysgol gynradd dda gyda digon o ddysgu' a sut nad oes 'unrhyw beth wedi'i warantu oherwydd y ciwiau hir' (Garvis, 2021, t. 393). Roedd y diffyg ansawdd canfyddedig hwn a mynediad at wasanaethau ECEC yn rhwystr i rieni rhag manteisio ar wasanaethau o'r fath. Yng nghyd-destun y DU, roedd teuluoedd yn Lloegr yn disgrifio gwasanaethau ECEC fel ffordd i 'ddim ond gwneud arian', gyda'r amgylchedd yn 'fudr' a'u plant heb ddysgu dim byd (Edwards, 2018, t.134) a 'llwyth o blant yn rhedeg o gwmpas, tisian, pesychu, a ... rhannu pethau' (Albakri et al. 2018, t.44). Roedd rhieni'n cwestiynu p'un ai a oedd gofal plant o ansawdd gwael os oedd yn cael ei roi am ddim. Roeddent hefyd yn poeni, mewn lleoliad gyda nifer o blant, na fyddai eu plentyn yn cael digon o sylw a gofal unigol gan y darparwr ac roeddent yn poeni y byddai eu plentyn yn dysgu ymddygiadau negyddol plant eraill. Roedd y materion hyn yn arbennig o amlwg i rieni plant dwy oed, y tybiwyd bod angen goruchwyliaeth fwy pwrpasol arnynt (Albakri et al., 2018).

“...nid y feithrinfa sy'n fy rhoeni mewn gwirionedd, ond y plant yn y feithrinfa. Felly dydw i ddim eisiau i'm mab godi arferion plant eraill yn y feithrinfa" (Rhiant cymwys plentyn dwy oed, y tu allan i Lundain)

4.2.2 Ffactorau cymdeithasol a diwylliannol

Cafodd agweddau tuag at wasanaethau ECEC a nifer y rhieni sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn eu siapio gan ffactorau cymdeithasol, mae'r rhain yn cynnwys pryderon am stigma cymdeithasol, canfyddiadau teuluol a dymameg a materion sensitifrwydd traws-ddiwylliannol.

Mae'r dystiolaeth fyd-eang yn dangos bod rhieni ethnig leiafrifol yn poeni sut roedd eraill yn meddwl amdanynt nhw a'u plant. Er enghraifft, roedd rhai rhieni'n teimlo'n ansicr ac yn teimlo cywilydd o'u diffyg sgiliau llythrennedd a'u gallu i ddarllen neu lofnodi'r gwaith papur cofrestru angenrheidiol ar gyfer eu plant (Mitchell a Meagher-Lundberg, 2017). Felly, fe wnaethant ddewis peidio ag anfon eu plant. Roedd rhai rhieni mudol hefyd yn teimlo'n ymwybodol eu bod yn wahanol i'r teuluoedd eraill yn ddiwylliannol, yn ieithyddol ac yn foesegol (Ebbeck, 2007; Patel ac Agbenyega, 2013; Shuker, 2016), oedd yn golygu nad oeddent yn manteisio ar wasanaethau ECEC i'w plant. Roedd rhieni mudol eraill yn teimlo bod ECEC yn werthfawr, fodd bynnag, roedd eu plant yn syrthio ar ei hôl hi oherwydd diffyg rhuglder iaith ac roedd eraill yn poeni na fyddent yn gallu cystadlu na llwyddo yn academiaidd (Tobin, 2011).

Mae canfyddiadau teuluol a dymameg teuluol hefyd yn dylanwadu ar agweddau tuag at ECEC. I rai teuluoedd, yn enwedig y rhai o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, roedd credoau traddodiadol yn pwysleisio rôl rhieni a theulu estynedig mewn gofal plant ac addysg gynnar. Er enghraifft, mynegodd rhiant a fagwyd yn Tsieina ffafriaeth ar gyfer y model gofal plant sy'n canolbwyntio ar y teulu yr oeddent yn gyfarwydd ag ef, gan ddweud, "Yn Tsieina, mae gennym ddisgwyliadau uchel iawn o'n plant bach. Dydw i ddim yn credu bod fy ffordd i o feddwl [fel mam Tsieineaidd] bob amser yn cael ei deall yma" (Hughes a Jones, 2021 tud. 49). Mae ymchwil fyd-eang

yn dangos y gall aelodau estynedig o'r teulu, fel neiniau a theidiau, fod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau ECEC gan eu bod yn credu mai cyfrifoldeb uniongyrchol y teulu yw magu'r plant ac y byddai plant yn cael mwy o gariad gartref (Jackiewicz et al., 2011; Lie 2010). Roedd sawl rhiant yn cytuno â'r gred bod plant ifanc yn dal yn rhy fach ac angen mwy o amser gyda'u teuluoedd (Albakri et al., 2018; Beatson et al., 2022).

Roedd ffactorau sensitifrwydd traws-ddiwylliannol hefyd ar waith wrth benderfynu ar y defnydd o wasanaethau ECEC. Roedd rhai mamau yn teimlo cywilydd ac yn poeni y byddai aelodau eraill o'r teulu neu aelodau o'r gymuned yn barnu eu bod yn ddi-glem neu'n ddiog (Jackiewicz et al., 2011). Roedd hyn yn arbennig o gyffredin mewn gwledydd fel Gwlad Pwyl (Barglowski a Pustulka, 2018) a Zaire (Jose a Wall, 2004), lle mae disgwyliadau a normau diwylliannol/rhywedd yn annog menywod i ymroi i ofalu am eu plant ifanc yn hytrach na'u hanfon i leoliad gofal plant. Mewn rhai diwylliannau, disgwyliwyd hefyd y byddai gwasanaethau ECEC yn gynhwysol ac yn ddiwylliannol berthnasol i gymunedau ethnig leiafrifol, megis ymfudwyr neu'r gymuned frodorol, a thrwy hynny ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu iaith eu cyndeidiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n berthnasol yn ddiwylliannol (Graham, 2012; Hopkins et al., 2017; Jackiewicz et al., 2011; Mitchell a Meagher-Lundberg, 2017; Wu a Poveda, 2022).

4.3 Thema 3: Argaeledd ac estyn allan yn weithredol

Wedi'u dylanwadu gan ffactorau fel hyfedredd iaith, dewisiadau diwylliannol, a statws mewnffudo, mae teuluoedd ethnig leiafrifol, mewnffudwyr a ffoaduriaid yn wynebu amrywiaeth o rwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau ECEC. Amlygir rôl hanfodol cynwysoldeb, cyfathrebu effeithiol, hunaniaeth ddiwylliannol, a chefnogaeth iaith wrth feithrin amgylchedd cefnogol a diddorol i blant a'u teuluoedd gan astudiaethau amrywiol.

4.3.1 Rhwystrau rhag cael gafael ar wasanaethau

Roedd disgwyliadau teuluoedd mewnffudwyr a ffoaduriaid o ran rhaglenni ECEC yn amrywio ar sail eu cyd-destun lleol, gan ddylanwadu ar eu safbwyntiau ar iaith, diwylliant, paratodau academaidd, a chynhwysiant cymdeithasol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar (Ebbeck, 2007); roedd rhai ohonynt yn poeni bod "eu plant yn dechrau ar ei hôl hi oherwydd diffyg rhuglder yn yr iaith genedlaethol" (Tobin, 2020 t.15). Roedd astudiaethau'n dangos sut mae mewnffudwyr a mamau sy'n ffoaduriaid yn aml yn wynebu heriau gyda rhwystrau iaith mewn lleoliadau gofal plant. Gall athrawon ddisgwyl i blant ddeall a siarad Saesneg, gan arwain at gamddealltwriaeth a theimlo'n anghyfforddus pan fydd rhieni'n siarad iaith wahanol gartref:

"...pan wnes i ei roi gyda'r athrawon am y tro cyntaf, bydden nhw'n siarad [Saesneg ag ef, dim ond Saesneg oedden nhw'n ei siarad]. Bydden nhw'n dod i siarad â mi ac yn dweud a yw eich plentyn yn siarad Saesneg? Byddwn i'n mynd, na. ... Mae hi'n gofyn beth ydych chi'n ei siarad gartref? Rydw i'n siarad Saesneg ac mae fy ngŵr yn siarad Arabeg....Roedd hi'n ei gwneud yn amlwg nad oedd hi'n hoffi hynny. Dywedodd fod yn rhaid i ni siarad Saesneg â'n plant nawr. Dywedais fy mod i'n siarad Saesneg gyda nhw" (Mam yn De Gioia 2015, t. 668).

Roedd argaeledd gofal plant sy'n cyd-fynd ag arferion diwylliannol teuluoedd lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn gyfyngedig. Nododd rhiant o Wlad Thai yr heriau yr oedd eu plentyn yn eu hwynebu oherwydd gwahaniaethau mewn dulliau disgyblu rhwng Gwlad Thai a Chymru, gan dynnu sylw at yr angen am ddewisiadau gofal plant mwy diwylliannol sensitif (t. 52). Mae Patori (2021) yn awgrymu

bod rhwystrau iaith a diffyg dealltwriaeth ddiwylliannol o fewn sefydliadau addysgol yn gallu arwain at berthnasod pell a chyfathrebu gwael rhwng athrawon a rhieni sy'n mewnfudo yn yr Eidal.

Roedd yn well gan rai teuluoedd i'w plant aros gartref lle'r oedd eu hiaith yn cael ei siarad, gan dynnu sylw at ddewis diwylliannol a chrefyddol ar gyfer gofal yn y teulu yn hytrach nag addysg yn y blynyddoedd cynnar sefydliadol, er gwaethaf polisïau'r llywodraeth sy'n hyrwyddo cyfranogiad ECEC (Mitchell a Meagher-Lundberg, 2017; Albakri et al., 2018). Dangosodd cyfweiliadau gyda rhieni o dras Bangladeshaid, Pacistanaid, Twrcaid a Rwmania yn Llundain eu bod am ddysgu eu plant am eu diwylliant a'u crefydd yn gynnar, gan feithrin gwerthoedd na fyddent, yn eu barn hwy, yn cael eu darparu yn rhywle arall, a dysgu ieithoedd mamiaith eu plant er mwyn cyfathrebu â pherthnasau hŷn (Albakri et al. 2018). Er enghraifft;

“Ro'n i eisïau dysgu ychydig mwy am grefydd iddi, ti'n gwybod, tra mae hi gartref. A phan fydd hi'n ifanc iawn. Rydw i'n gweld nad yw llawer o feithrinfeydd wir yn helpu gyda'r math yna o bethau crefyddol.” (Rhiant plentyn pedair oed cymwys, y tu allan i Lundain, t.44)

“Dydw i ddim yn barod iawn i'w roi yn y byd eang eto, rydw i eisïau iddo gael gwell dealltwriaeth ohono'i hun a'n diwylliant, a rhoi sylfaen gryfach iddo cyn iddo fynd allan.” (Rhiant plentyn tair oed cymwys, y tu allan i Lundain, t.44)

Roedd rhannu iaith yn bwysig i eraill; eglurodd un fam Indiaidd bod ei mab yn fwy cyfforddus mewn canolfan gofal plant gyda llawer o blant a staff Indiaidd a oedd yn siarad eu hiaith, gan ei fod yn cael trafferth deall a chyfathrebu yn Saesneg mewn canolfan arall, a achosodd drallod iddo (Hopkins et al. , 2017). Pwysleisiodd gweithwyr brodorol yn y blynyddoedd cynnar bwysigrwydd myfyrio diwylliannol mewn lleoliadau gofal plant, gan eiriol dros gyfrifoldeb cymunedol mewn arferion magu plant, fel rhannu cyfrifoldebau bwyd i osgoi codi cywilydd ar rieni os na all rhieni ddarparu cinio i'w plant (Grace, 2012).

I rai rhieni mewn lleoliadau Saesneg eu hiaith, gallai diffyg hyfedredd Saesneg fod yn destun cywilydd, gan ei fod yn awgrymu statws cymdeithasol isel ac addysg wael yn eu mamwlad. Soniodd un fam Fietnamaidd am yr anhawster o beidio â chael cyfieithydd yn yr ysgol, gan deimlo ei bod yn colli allan a theimlo cywilydd. Roedd y mater hwn yn ymestyn i wasanaethau eraill, fel ymweliadau meddygol, lle'r oedd rhwystrau cyfathrebu yn ei gwneud yn anodd esbonio anghenion i ddarparwyr gofal iechyd (Hopkins et al. 2017). Roedd rhwystrau iaith hefyd yn effeithio ar neiniau a theidiau a oedd yn darparu gofal plant ychwanegol, gan effeithio ar eu gallu i gyfathrebu'n effeithiol â gweithwyr gofal plant ac athrawon (O'Callaghan, 2023).

Roedd statws mewnfudo yn cael ei ystyried yn rhwystr wrth gael mynediad at wasanaethau ECEC. Mae mamau sy'n mewnfudo ac yn ffoaduriaid yn aml yn wynebu cyfyngiadau difrifol o ran eu hopsiynau gofal plant oherwydd diffyg adnoddau ar ôl iddynt gyrraedd. Disgrifiodd un fam ei sefyllfa o ddychwelyd o dramor heb gartref, car na thrwydded gan ddewis canolfan gofal plant yn seiliedig dim ond ar ba mor agos ydoedd i'w chartref, gan nad oedd ganddi unrhyw opsiynau neu ddewisiadau eraill (De Gioia, 2015). Mae menywod sy'n mewnfudo yn wynebu rhwystrau rhag cael gofal plant oherwydd statws mewnfudo, gan gynnwys rhestrau aros hir, costau uchel, a diffyg cymhwysedd ar gyfer cymorthdaliadau (Frankowicz, 2007). Mae statws mudo, fel fisâu myfyrwyr, yn cyfyngu ar fynediad at wasanaethau yn y blynyddoedd cynnar, gan greu straen a phryder i

deuluoedd sy'n cael trafferth gydag anghenion sylfaenol fel gwasanaethau addysg ac iechyd (Hopkins et al. , 2017). Roedd mynediad at ECEC yn seiliedig ar statws cyflogaeth rhieni; roedd gan famau di-waith neu mewn gwaith ansicr lai o gyfle i'w plant gael eu derbyn i wasanaethau gofal plant (Pastori et al., 2021). Roedd rhestrau aros hir am wasanaethau gofal plant yn llesteirio gallu rhieni i weithio, gan ychwanegu at yr heriau a wynebwr gan deuluoedd mewnfudwyr (Hopkins et al. , 2017). Roedd anghenion uchel teuluoedd difreintiedig yn aml yn golygu nad oedd addysg yn y blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth nes bod materion cymdeithasol pwysicach yn cael eu datrys (Mitchell a Meagher-Lundberg, 2017).

Mae Beatson et al. (2022) yn egluro, ar lefel polisi, bod tua dwy ran o dair o rieni a darparwyr wedi sôn am rwystrau sy'n gysylltiedig â pholisïau'r llywodraeth, yn enwedig meini prawf cymhwysedd ar gyfer addysg a gofal plant cynnar (ECEC) gyda chymhorthdal. Roedd y rhwystrau hyn yn ymwneud yn bennaf ag incwm teulu, oed plant, a dinasyddiaeth neu fath o fisa. Tynnodd rhieni a darparwyr sylw hefyd at yr angen am well cyllid i gefnogi plant sydd ag anghenion gofal iechyd neu ddatblygiadol ychwanegol.

4.3.2 Cefnogi a hwyluso

Roedd rhai rhieni ar draws rhaglenni yn gwerthfawrogi'r awyrgylch cyffredinol groesawgar (Agbenyega, 2010; Bowes, 2011), a oedd yn gwneud i bawb deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, beth bynnag fo'u cefndir diwylliannol neu ethnig (Craig et al., 2007). Tynnodd De Gioia, (2015) sylw at bwysigrwydd cyfathrebu parhaus rhwng darparwyr gofal plant a rhieni o ran meithrin ymddiriedaeth a sicrwydd. Cafodd hyn ei amlygu gan brofiad mam, Hanife, a oedd yn wynebu tralldod cychwynnol pan oedd ei phlentyn, Kazah, yn ypset yn ystod y dyddiau cyntaf mewn canolfan gofal plant; roedd sicrwydd dyddiol y cyfarwyddwr, a ddarparwyd yn Saesneg ac Arabeg, yn helpu Hanife i deimlo'n fwy cyfforddus. Roedd y sgysiau hyn hefyd yn caniatáu i Hanife fynegi ei dewisiadau o ran addysg Kazah, gan geisio cydbwysedd rhwng ei chredoau diwylliannol a gweithgareddau'r ganolfan gofal plant.

Gall y broses ymgeisio, yn enwedig ffurflenni ar-lein, fod yn heriol i rieni sydd â sgiliau TG cyfyngedig neu'r rhai nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Nododd Albakri et al. (2018) bod rhieni â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) yn teimlo bod y broses yn anodd ac yn ddryslyd ac nad oedd ganddynt y sgiliau TG a llythrennedd angenrheidiol i lenwi ffurflen gais ar-lein yn annibynnol' (t. 16). Tynnodd Graham ac Underwood (2012) sylw at yr angen i gael staff dwyieithog a Ffrangeg eu hiaith mewn lleoliadau addysg blynyddoedd cynnar yng Nghanada. Pwysleisiodd rhiant fod mynd i'r afael â phryderon a gofyn am gymorth yn dod yn fwy heriol pan nad yw'n cael ei gynnal yn iaith frodorol rhywun, gan dynnu sylw at yr angen am gyfathrebu hygyrch.

Roedd teuluoedd hefyd yn cydnabod gwerth sut y gall cefnogaeth wedi'i thargedu wneud gwahaniaeth sylweddol; dywedodd Badr fod gweithiwr allweddol Cychwyn Cadarn yn hollbwysig o ran sicrhau lle i'w phlentyn dwyflwydd oed mewn meithrinfa. Roedd atgyfeiriad arbennig y gweithiwr allweddol a'r gefnogaeth gyda'r broses ymgeisio yn hanfodol er mwyn helpu Badr i gael gofal plant i'w phlentyn. O ganlyniad, roedd Badr yn teimlo rhyddhad ac yn adennill ymdeimlad o amser personol a bywiogrwydd ar ôl cyfnod heriol (Edwards, 2018).

4.3.3 Darpariaeth gwasanaeth a disgwyliadau

Ar adegau, nid oedd y gwasanaethau a ddarparwyd yn bodloni disgwyliadau rhieni o reidrwydd (Busch et al. , 2018). Er enghraifft, soniodd un rhiant am sut roedd ei blentyn wedi dysgu canu a dawnsio, ond byddai'n well ganddo i'w blentyn ddysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu, yn enwedig yn Saesneg (De Gioia, 2015).

Mae Jackiewicz et al. (2011) yn nodi rhwystr critigol i fynediad i ofal plant fel y diffyg lleoedd sydd ar gael. Roedd darparwyr gofal plant brodorol yn Awstralia yn aml yn wynebu rhestrau aros helaeth ac roedd yn rhaid iddynt droi teuluoedd i ffwrdd yn aml yn fuan ar ôl agor: "Dim ond pythefnos rydyn ni wedi bod ar agor eleni, ac rydyn ni'n llawn, rydyn ni'n troi teuluoedd i ffwrdd" (Darparwr gwasanaeth, rhanbarthol); Mae'r diffyg hwn o wasanaethau gofal plant ffurfiol wedi cynyddu'r angen am ofal plant anffurfiol. Yn eu gwerthusiad o raglen ECEC ar gyfer teuluoedd incwm isel yn Seland Newydd, canfu Mitchell a Meagher-Lundberg (2017) fod cymryd rhan mewn ECEC yn dibynnu ar a oedd ECEC ar gael yn lleol, a oedd ganddynt oriau addas i deuluoedd, ac a oeddent yn cynnig lleoedd heb amseroedd aros hir.

Gan ategu'r safbwyntiau hyn, mae Wu a Poveda (2022) yn archwilio'r cymorth gofal plant hyblyg a dwys a ddarperir gan neiniau a theidiau mewn teuluoedd mudol, yn enwedig ymysg mewnfudwyr Tsieineaidd yn Sbaen. Mae cysylltiad neiniau a theidiau yn allweddol i reoli oriau gwaith afreolaidd a llwyth gwaith trwm rhieni mudol. Er enghraifft, cafodd Hui, mam i bedwar, fudd mawr o gael ei rhieni yng nghyfraith yn symud i Sbaen i helpu gyda gofal plant. Roedden nhw'n darparu gofal dibynadwy ac ymroddedig, gan alluogi Hui a'i gŵr i weithio yn eu siopau ffôn heb bryderon am les eu plant. Roedd y neiniau a'r teidiau nid yn unig yn gofalu am yr wyrion a'r wyresau ond hefyd yn helpu gyda gwaith tŷ, gan wella sut oedd y teulu'n gweithredu yn gyffredinol. Mae hyn yn tynnu sylw at rôl teuluoedd estynedig o ran darparu atebion gofal plant hyblyg a dibynadwy mewn teuluoedd mudol.

Gan ychwanegu at yr heriau hyn, mae Beatson et al. (2022) yn datgelu anghysondeb rhwng yr amserlenni gofal plant sydd ar gael ac anghenion gwaith rhieni; mynegodd rhiant rwystredigaeth, gan nodi, er bod canolfannau lleol yn cynnig sesiynau dydd byr, bod angen diwrnodau hir ar rieni sy'n gweithio. Yn yr un modd, yn yr Alban, er bod rhieni'n fodlon ar hyblygrwydd yr oriau a ariennir, roedd rhai rhieni yn dal yn dymuno cael mwy o hyblygrwydd i gyd-fynd â'u hamserlenni gwaith a lleihau'r angen am ofal plant ychwanegol â thâl (t. 6). Roedd y rheini a oedd yn anfodlon eisiau sesiynau hirach ar lai o ddiwrnodau, sesiynau byrrach ar fwy o ddiwrnodau, neu sesiynau yn ystod gwyliau'r ysgol (Llywodraeth yr Alban 2022 t. 6). Nododd Albakri hefyd, bod hyblygrwydd cyfyngedig mewn opsiynau gofal plant, fel amserlenni anhyblyg neu ddiffyg gofal dros y penwythnos/gyda'r nos, yn gallu bod yn rhwystr i rieni sydd ag oriau gwaith anhraddodiadol neu ddewisiadau diwylliannol. Nododd darparwyr fod 'awdurdodau lleol Llundain ac awdurdodau lleol nad ydynt yn Llundain yn dweud bod bwlch yn y ddarpariaeth ar gyfer gofal gyda'r nos, dros nos ac ar benwythnosau.' (t. 9).

4.4 Thema 4: Fforddiadwyedd a Mynediad gweithredol

Mae hygyrchedd a fforddiadwyedd gwasanaethau ECEC yn ffactorau pwysig i gymunedau amrywiol, gan gynnwys teuluoedd brodorol yn Awstralia, plant Roma yn y DU, a theuluoedd ffoaduriaid ac ymfudwyr ledled y byd.

4.4.1 Amrywiaeth adnoddau a hygyrchedd gwasanaethau

Mae Jackiewicz et al. (2011) yn tynnu sylw at yr amrywioldeb sylweddol mewn costau gofal plant ar gyfer teuluoedd brodorol yn Awstralia, wedi'i ddylanwadu gan y math cymunedol a'r gofal sydd ar gael. Roedd gwasanaethau gofal plant prif ffrwd yn afresymol o ddrud, tra bod gwasanaethau penodol i bobl frodorol, er eu bod yn rhatach, yn dal yn heriol i lawer o deuluoedd eu fforddio. Roedd gan rai cymunedau ddulliau cymorth unigryw, megis cynghorau cymuned yn talu ffioedd neu'n gofyn am gyfraniadau bach tuag at gostau bwyd. Ac eto, gall hyd yn oed y ffioedd is hyn fod yn feichus i rai teuluoedd, yn enwedig rhai mwy, lle'r oedd y gost gronnus yn anghynaliadwy er gwaethaf ffioedd unigol isel.

Mae Klaus (2019) yn trafod effaith newidiadau strwythurol ar Wasanaethau Cymorth Addysg i Deithwyr (TESS) yn y DU, a oedd yn wynebu ad-drefnu, lleihau a chau oherwydd toriadau ariannol a mesurau cyni. Roedd y newidiadau hyn yn rhoi pwysau ar adnoddau ariannol cynghorau llywodraeth leol, gan ei gwneud yn anodd i ysgolion gefnogi anghenion plant Roma; datblygodd ysgolion gyda Chynorthwyrwyr Addysgu Roma ddealltwriaethau pontio diwylliannol, ond cawsant drafferth bodloni gofynion eu poblogaethau myfyrwyr o dan gyllid cyfyngedig. Gwaethygodd toriadau budd-daliadau lles cymdeithasol yr heriau hyn ymhellach, yn enwedig i deuluoedd yn y farchnad lafur anffurfiol, gan effeithio ar allu ysgolion i sicrhau cyllid ychwanegol drwy'r premiwm disgybl. O ganlyniad, roedd yn ofynnol i ysgolion dalu am gostau cymorth iaith, staff arbennig ac anghenion dysgu, er gwaethaf adnoddau cyfyngedig. Mewn dinasoedd sy'n profi mewnlifiad sylweddol o blant Roma, roedd diffyg seilwaith cymunedol penodol yn gorlethu'r gwasanaethau a oedd ar gael, gan leihau'r gallu i fynd i'r afael ag anghenion penodol ac erydu'r ymddiriedaeth a gafodd ei meithrin dros flynyddoedd.

Mae Graham ac Underwood (2012) a Klaus (2019) yn tanlinellu ymhellach bwysigrwydd gwasanaethau hygyrch mewn cymunedau. Pwysleisiodd rhieni o gefndiroedd brodorol a Roma bod angen i wasanaethau arferol ac arbenigol fod ar gael gerllaw. Mae hygyrchedd y gwasanaethau hyn yn hanfodol i les a chefnogaeth eu plant, gan alluogi teuluoedd i lywio eu bywydau bob dydd yn fwy effeithiol.

Yng nghyd-destun teuluoedd ffoaduriaid, er mwyn cynyddu eu mynediad at adnoddau a gwasanaethau a darparu ar gyfer eu hanghenion amrywiol, dywedodd rhai addysgwyr ECEC fod cyfathrebu cyson rhwng ECEC a gwasanaethau cymorth cysylltiedig eraill yn hollbwysig (De Gioia, 2015). Drwy gael cysylltiadau â gwasanaethau cymorth eraill, gallent wedyn ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol i deuluoedd ffoaduriaid, a fyddai'n rhoi mynediad iddynt at adnoddau a gwasanaethau (Grace, 2012). O'r herwydd, un o rolau allweddol darparwyr gwasanaeth ECEC oedd trefnu mynediad teuluoedd ffoaduriaid at wahanol asiantaethau (Mitchell a Meagher-Lundberg, 2017).

4.4.2 Cost a fforddiadwyedd gofal plant

Roedd fforddiadwyedd yn rhwystr sylweddol i lawer o deuluoedd, yn enwedig y rheini o gymunedau ethnig leiafrifol yng Nghymru. Roedd cost gofal plant yn aml yn fwy na chapasiti ariannol y teuluoedd hyn, yn enwedig i'r rheini sydd ag incwm cyfyngedig neu aelwydydd un rhiant. Soniodd teulu o wlad Thai sy'n siarad Saesneg am faich ariannol sesiynau Saesneg ychwanegol ar gyfer eu plentyn, gan ddweud, "*Roedd hyn yn ddrud ac ni allem ei fforddio ar un cyflog*" (Hughes a Jones, 2021 t. 52).

Mewn llawer o achosion, mae defnyddio rhwydweithiau sy'n berthnasau yn tynnu sylw at gyfyngiadau ariannol a'r angen am atebion gofal plant hyblyg (Bojarczuk, 2022). Mae Jackiewicz et

al., (2011) yn manylu ar y ddibyniaeth ar aelodau o'r teulu ar gyfer gofal plant ymysg teuluoedd brodorol, sy'n cael ei phriodoli i faterion sy'n ymwneud ag argaeledd, hyblygrwydd ac ymddiriedaeth. Mae'n disgrifio'r ddibyniaeth ar aelodau'r teulu ar gyfer gofal plant ymysg teuluoedd brodorol. Fodd bynnag, er bod rhai'n gweld rhwydweithiau perthnasau fel ateb cost-effeithiol, nid yw'r opsiwn hwn ar gael i bob teulu. Mewn rhai achosion, roedd neiniau a theidiau yn cael trafferth gyda gofynion rhoi gofal, gan ddangos cymhlethdodau a chyfyngiadau wrth ddibynnu ar rwydweithiau teuluol. Yng nghyd-destun teuluoedd mudol yn Awstralia, mae O'Callaghan et al., (2023) yn disgrifio sut mae neiniau a theidiau yn aml yn ymgymryd â rolau gofal plant i helpu i leddfu'r baich ariannol ar rieni. Roedd y trefniant hwn yn cael ei ffafrio oherwydd ei fanteision economaidd a statws neiniau a theidiau sydd wedi ymdeol, sy'n gallu darparu gofal heb rwymedigaethau gwaith sy'n gwrthdaro. Fodd bynnag, mae'r gosodiad hwn yn fwy o reidrwydd na dewis delfrydol, wrth i rieni ymdrechu i sicrhau sefydlogrwydd ariannol.

Mae Wong (2014) yn rhoi enghraifft o'r gymuned mewnfudwyr Affricanaidd yn Lloegr, lle mae perthynas fenywaidd yn chwarae rhan hollbwysig mewn gofal plant yn ystod y cyfnod setlo cychwynnol. Anfonodd nyrs o'r enw Fremah ei phlant at ei modryb yn Ghana oherwydd cost uchel gofal plant yn y DU a'r angen i weithio shifftiau nos. Roedd y trefniant gofalu traws-wladol hwn yn caniatáu iddi weithio'n llawn amser a chefnogi ei theulu'n ariannol, er gwaethaf yr anhawster emosiynol o gael ei gwahanu oddi wrth ei phlant. Yn yr un modd, mae Wu a Poveda (2022) yn trafod profiadau teuluoedd mewnfudwyr Tsieineaidd yn Sbaen, sydd hefyd yn dibynnu'n drwm ar rwydweithiau sy'n berthnasau ar gyfer gofal plant. Yn wyneb costau gofal plant uchel ac oriau gwaith anhyblyg, anfonodd rhieni eu plant yn ôl i Tsieina i gael gofal gan neiniau a theidiau. Roedd y trefniant hwn yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar eu gwaith ac ad-dalu dyledion, er eu bod yn wynebu cost emosiynol gwahanu. Dros amser, mae sefydlogrwydd economaidd yn galluogi rhieni i ddigolledu neiniau a theidiau yn ariannol am eu hymdrechion gofalu, gan adlewyrchu ymdeimlad o ddiolchgarwch a rhwymedigaeth deuluol.

4.5 Thema 5: Priodoldeb ac ymgysylltiad gweithredol

Mae profiadau rhieni gyda gwasanaethau ECEC yn tynnu sylw at bwysigrwydd hanfodol perthnasoedd cefnogol a chyfranogiad cymunedol; mae perthnasoedd o ymddiriedaeth yn hanfodol er mwyn ymgysylltu'n weithredol â grwpiau sy'n ddiwylliannol amrywiol. Ac eto, mae sawl her i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau a goresgyn rhwystrau strwythurol.

4.5.1 Perthnasoedd ac ymgysylltu

Roedd ymddiriedaeth, ochr yn ochr â chysylltiadau rhwng y teulu a darparwyr gwasanaethau, yn paratoi'r llwybr i rieni a gofaluwr deimlo'n gyfforddus bod y plant yn rhan o wasanaethau o'r fath (Leske, 2015; Miller, 2015). Er enghraifft, rhannodd un fam sut roedd y rhaglen Cychwyn Cadarn yn darparu cymorth a chefnogaeth sylweddol, gan fynegi ei boddhad a'i gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth (Edwards, 2018). Roedd gweithwyr a oedd yn meithrin cysylltiadau cryf â theuluoedd yn aml yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r potensial ym mhob teulu. Pwysleisiodd Jenny, gweithwraig ECEC frodorol yn Awstralia, bwysigrwydd datblygu perthynas go iawn gyda theuluoedd i ddatgelu eu cryfderau, yn enwedig i'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Ystyriwyd bod meithrin ymddiriedaeth gyda henoed y gymuned leol a chanolfannau prif ffrwd, er eu bod yn heriol ac yn cymryd llawer o amser, yn hanfodol ar gyfer cydweithio cynhyrchiol (Grace, 2012).

Roedd rhaglenni fel y Gronfa Cyfranogiad Cynnar (EPF) yn Seland Newydd yn dangos pwysigrwydd meithrin perthynas yn barhaus. Bu cydlynwyr EPF yn gweithio gyda theuluoedd ffoaduriaid y Congo am hyd at 36 mis, gan feithrin ymddiriedaeth a darparu cymorth addysgol parhaus, fel gweithgareddau dysgu wythnosol i ennyn diddordeb plant gartref (Mitchell a Meagher-Lundberg, 2017).

Mae'r dystiolaeth fyd-eang yn awgrymu bod mamau yn gyffredinol yn ystyried ECEC yn gadarnhaol pan oedd athrawon yn blaenoriaethu lles, tegwch a phrofiadau ffurfiannol plant. Roedd hyn yn aml yn cynnwys mynd y tu hwnt i'w rolau sefydliadol i gynnig cefnogaeth emosiynol ac ymgysylltu empathig. Roedd perthnasoedd o'r fath yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig gan famau mewnfwydwr Morocaid yn yr Eidal, a oedd yn aml heb ffynonellau cyngor a chymorth eraill ynghylch addysg a gofal eu plant (Pastori et al., 2021).

Fodd bynnag, gall materion yn ymwneud ag ymddiriedaeth effeithio'n sylweddol ar hyder rhieni mewn gwasanaethau ECEC (Fleer, 2004). Collodd un fam ymddiriedaeth yn rhaglen gofal plant ei merch ar ôl i staff gam-drafod gwybodaeth gyfrinachol am angen ei phlentyn am wasanaethau ychwanegol, gan arwain at anghysur a rhwystredigaeth (Graham ac Underwood, 2012).

Roedd rhieni'n poeni am ddiogelwch eu plant mewn lleoliadau ECEC oherwydd y diffyg goruchwyliaeth canfyddedig gan athrawon mewn ysgolion. Roedd llawer yn ansicr a fyddai eu plant yn ddiogel ac a ellid ymddiried mewn oedolion mewn lleoliad ECEC (Hare ac Anderson, 2010; Mitchell a Meagher-Lundberg, 2017). Roedd llawer o famau yn teimlo'n ansicr y byddai eu plant mewn amgylcheddau ffisegol anniogel oherwydd grwpiau mawr o blant oedran cyn-ysgol a diffyg rheoliadau ar feintiau grwpiau yn Sweden. Roedd rhai mamau hyd yn oed wedi clywed straeon gan famau eraill am blant yn dychwelyd gydag anafiadau a'r athrawon mewn gofal ddim yn gwybod beth oedd wedi digwydd na sut roedd anafiadau o'r fath wedi digwydd (Garvis, 2021). Roedd rhieni nad oedd ganddynt brofiadau cadarnhaol o ECEC eu hunain, fel rhieni brodorol, hefyd yn brin o ymddiriedaeth mewn gwasanaethau o'r fath ac felly roeddent yn wylidwrs o anfon eu plant i gael gofal mewn amgylcheddau ECEC (Jackiewicz et al., 2011).

Nid oedd llawer o rieni, yn enwedig yn Llundain, yn defnyddio gwasanaethau ECEC oherwydd diffyg ymddiriedaeth mewn darparwyr gofal plant. Nododd Albakri et al. (2018) mai'r prif bryderon oedd gadael eu plentyn gyda dieithriad. "Dydw i ddim yn teimlo'n gyfforddus yn gadael fy mhlentyn gyda phobl nad ydw i'n eu hadnabod. Rhaid i mi ymddiried ynoch chi er mwyn i mi adael fy mhlentyn gyda chi. Alla i ddim gadael fy mhlentyn gyda neb. (Rhiant plentyn 2 oed cymwys, y tu allan i Lundain, t. 45) Fodd bynnag, roedd rhieni a oedd yn gyfarwydd â darparwr yn fwy tebygol o ymddiried ynddo: byddwn yn ei ddefnyddio oherwydd fy mod yn adnabod y sawl sy'n gweithio yno. Felly dwi'n ymddiried ynddyn nhw. (Rhiant plentyn 2 oed cymwys, y tu allan i Lundain, t. 45).

4.5.2 Addasrwydd gwasanaethau a rhwystrau strwythurol

Roedd rhwystrau iaith yn effeithio ar briodoldeb addysg gynnar a gofal plant yng nghyd-destun Cymru. I deuluoedd lle nad Saesneg oedd y brif iaith, roedd cael gadael ar wasanaethau gofal plant a oedd yn diwallu eu hanghenion iaith, a'u defnyddio, yn heriol. Mynegodd teulu Tsieinëeg Mandarin sy'n siarad Saesneg ffafriaeth at addysg cyfrwng Saesneg oherwydd eu cysylltiad cyfyngedig â'r Gymraeg, gan nodi bod angen mwy o ddewisiadau gofal plant ieithyddol amrywiol (Hughes a Jones 2021, t. 53).

Dyweddodd nifer o rieni mai un o'r prif rwystrau i ddefnyddio gwasanaethau ECEC oedd y diffyg addasrwydd i'w hanghenion penodol o ran amser a hyd sesiynau. Er enghraifft, roedd rhai'n teimlo y byddai diwrnodau byrrach wedi bod yn fwy priodol i'w plant iau, ond nid oedd hyn yn cael ei gynnig fel opsiwn (Beelon et al., 2022). Ar ben hynny, yn ôl Busch et al. (2018), roedd rhwystrau strwythurol i'r defnydd o wasanaethau ECEC megis y diffyg cysylltiadau cludiant cyhoeddus sydd ar gael i rieni eu defnyddio i ddod â'u plant i grwpiau gofal plant, anallu ysgolion i ddarparu ar gyfer y gwahanol grwpiau oedran o blant, yn ogystal â'r diffyg deunyddiau dysgu yn iaith neu lefel ddysgu briodol y plentyn (e.e., roedd deunyddiau'n rhy anodd i'w plentyn eu deall).

Ar ben hynny, profwyd rhwystrau strwythurol nid yn unig gan rieni plant a ddefnyddiodd wasanaethau ECEC, ond hefyd gan ddarparwyr gwasanaethau o'r fath. Roedd astudiaethau'n nodi'n aml fod aelodau staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau ECEC yn gallu teimlo nad ydynt yn ddigon cymwys neu wedi paratoi'n ddigon da. Yn benodol, teimlai ymarferwyr nad oeddent yn gallu gweithio gyda theuluoedd mewnfudwyr gan nad oeddent wedi cael digon o hyfforddiant i weithio gyda dysgwyr ail iaith a/neu nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth ddiwylliannol am y grwpiau o blant a'r rhieni y gofynnwyd iddynt weithio gyda nhw (Tobin, 2020). Roedd eraill yn teimlo, oherwydd diffyg hyfforddiant, nad oeddent mewn sefyllfa i ddarparu cymorth i deuluoedd ag anghenion cymhleth, fel dioddefwyr trais/cam-drin domestig neu sydd wedi profi trawma sylweddol (Beaton et al., 2022; Grace et al., 2012). Trafododd sawl ymarferydd hefyd y straen meddyliol a brofir wrth orfod delio â phynciau sensitif yn ymwneud â'r teuluoedd yr oeddent yn eu cefnogi, megis ceisio lloches, allgludo, profiad rhyfel, a theuluoedd yn cael eu gwahanu (Busch et al., 2018).

5 Ymyriadau i annog cymryd rhan mewn addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar

Yn y bennod hon, rydym yn dwyn ynghyd ganfyddiadau o 11 astudiaeth i roi trosolwg o'r strategaethau a ddefnyddir i gynyddu cyfranogiad mewn addysg a gofal blynyddoedd cynnar (ECEC) yn y DU. Mae'r astudiaethau'n perthyn i ddau brif gategori: i) dulliau gweithredu sy'n targedu'r boblogaeth gyffredinol a ii) dulliau sy'n targedu poblogaethau penodol, fel teuluoedd lleiafrifoedd ethnig a theuluoedd difreintiedig. Mae'r dulliau yn y categori cyntaf yn cynnwys strategaethau eang a gynlluniwyd i wella cyfranogiad ECEC ar draws pob teulu. Roedd y dulliau gweithredu yn yr ail gategori yn targedu grwpiau penodol o'r boblogaeth ac roeddent yn aml yn cael eu darparu yn y cymunedau hynny. Yn debyg i'r penderfyniadau a wnaethpwyd yn y bennod flaenorol ar rwystrau a galluogwyr, fe wnaethom flaenoriaethu data sy'n berthnasol i blant a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, mae diffyg data wedi'i ddadgyfuno yn cyfyngu ar ein gallu i asesu llwyddiant yr ymyriadau hyn yn llawn o ran cynyddu cyfranogiad ymysg plant ethnig leiafrifol.

5.1 Hygyrchedd

Ymchwiliodd astudiaethau i strategaethau ac ymdrechion i gyrraedd teuluoedd a rhoi gwybod iddynt am ddarpariaeth ECEC. Roedd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o fodolaeth a manteision rhaglenni ECEC, defnyddio sianeli cyfathrebu amrywiol i ledaenu gwybodaeth, a sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n ddealladwy ac yn apelio at boblogaethau targed.

5.1.1 Marchnata a negeseuon: cyffredinol, wedi'u targedu ac amlieithog

Mae astudiaethau'n ymchwilio i'r defnydd o strategaethau marchnata i gynyddu ymwybyddiaeth a'r defnydd o Raglenni Addysg Gynnar am Ddim (FEEE) a Rhaglenni Cychwyn Cadarn yn Lloegr. Defnyddiodd llawer o awdurdodau lleol ymgyrchoedd marchnata cyffredinol i feithrin cydnabyddiaeth ac ymgyfarwyddo ag FEEE i gynyddu ymwybyddiaeth a'r nifer sy'n eu defnyddio. Roedd y strategaethau marchnata cyffredinol hyn yn cynnwys: hysbysebion ar loriau bin a safleoedd bysiau a dosbarthu taflenni drwy leoliadau a ddefnyddir gan deuluoedd plant ifanc (megis canolfannau plant, llyfrgelloedd a meddygfeydd Meddygon Teulu) (Albakri et al. 2018 t. 61.). Ymgyrchoedd marchnata wedi'u targedu gyda'r nod o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar raglenni addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar (ECEC), yn enwedig ymysg teuluoedd difreintiedig. Yn 2019, gofynnodd yr Adran Addysg (DfE) i naw awdurdod lleol sydd â chyfraddau defnydd isel ar gyfer yr hawl i deuluoedd difreintiedig dreialu ffyrdd amgen o gysylltu â theuluoedd a allai fod yn gymwys. Yn hytrach na defnyddio llythyr swyddogol, defnyddiodd Awdurdodau Lleol gardiau post i dynnu sylw a chyfleu negeseuon mewn ffordd fwy agos-atoch. Roeddent hefyd wedi anfon 'Tocynnau Aur', sef talebau y gellid eu cyfnewid am eu hawl. Pan gysylltwyd â nhw drwy'r dulliau newydd hyn, gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y teuluoedd sy'n gwneud cais am ofal plant ac yn defnyddio hawliau gofal plant (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020).

Roedd datblygu deunyddiau marchnata amlieithog fel taflenni a fideos yn hanfodol er mwyn cyrraedd rhieni nad oeddent yn siarad Saesneg (Albakri et al. 2018). Fodd bynnag, mae Craig et al. (2007) ac Albakri et al. (2018) yn tynnu sylw at yr heriau ariannol o gyfieithu'r holl deunyddiau i ieithoedd amrywiol a siaredir mewn cymunedau. Yn ymchwil Albakri, roedd darparwyr gofal plant yn cydnabod eu hanallu i ddarparu'n llawn ar gyfer amrywiaeth ieithyddol, gan ddweud, "roedd darparwyr yn ymwybodol nad oeddent yn gallu cyfieithu'r holl wybodaeth i ieithoedd cymunedol eu poblogaethau lleol" (t 53). Efallai fod y cyfyngiad hwn wedi cyfyngu ar fynediad rhai teuluoedd at

wybodaeth a gwasanaethau rhaglenni. Yn yr un modd, canfu astudiaeth Craig nad oedd y rhan fwyaf o Raglenni Lleol Cychwyn Cadarn (SSLPs) yn cyfieithu deunyddiau oherwydd cost. Ceisiodd un SSLP ddatrys y broblem drwy gynnwys rhif cyswllt yn Wrddw ar eu llythyrau, gan gydnabod yr angen am gymorth amlieithog. Fodd bynnag, mae'r awduron yn awgrymu bod hyn yn debygol o fod yn annigonol ac y gallai'r diffyg deunyddiau wedi'u cyfieithu fod yn rhwystr i deuluoedd nad ydynt yn siarad Saesneg.

5.1.2 Ymweliadau cartref

Mae dwy astudiaeth yn nodi bod ymweliadau cartref yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd lleiafrifoedd ethnig mewn Cychwyn Cadarn (Craig et al., 2007; Hamm et al., 2010) a dwy astudiaeth arall yn cyfeirio at ymweliadau cartref fel strategaeth bosibl ar gyfer hybu ymwybyddiaeth a defnydd o FEEE, yn enwedig ar gyfer teuluoedd difreintiedig (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 2020, Albankri et al. 2018).

Nodwyd ymweliadau cartref fel elfen allweddol o'r rhaglen i sicrhau bod Cychwyn Cadarn yn gwella cyfraddau presenoldeb teuluoedd ethnig leiafrifol a difreintiedig. Yn eu gwerthusiad yn 2007 o Cychwyn Cadarn ar gyfer teuluoedd Du ac Ethnig Leiafrifol, pwysleisiodd Craig et al. rôl ganolog ymweliadau cartref yn llwyddiant y rhaglen: "Yr holl reswm pam mae ein gwasanaeth yn gweithio yw oherwydd ein bod yn mynd i'w cartrefi" (t. 48).

Yn Hamm (2010), ystyriwyd bod ymweliadau cartref yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu â mamau o dras Pacistanaidd a allai fod wedi bod yn amharod i gael mynediad at wasanaethau y tu allan i'w cartrefi ac yn aml dyma'r unig ffordd i gyrraedd menywod a oedd yn cael eu "dal yn y tŷ" oherwydd disgwyliadau diwylliannol a chyfrifoldebau teuluol. Canfu'r astudiaeth fod y cartref yn lle diwylliannol arwyddocaol i lawer o deuluoedd, a gallai darparu gwasanaethau yn y man hwn fod yn fwy derbyniol ac yn llai brawychus na'r disgwyl i deuluoedd ddod i ganolfan. Tynnodd yr awduron sylw at y ffaith y gall normau diwylliannol a chrefyddol lywio'r berthynas rhwng menywod a'r cartref, gan wneud ymweliadau cartref hyd yn oed yn fwy hanfodol ar gyfer mamau o dras Pacistanaidd. Roedd yr ymweliadau hefyd yn caniatáu ar gyfer cefnogaeth un-i-un mewn amgylchedd cyfarwydd, gan feithrin ymddiriedaeth a hyder cyn i famau archwilio'r ystod lawn o wasanaethau Cychwyn Cadarn. Nododd yr awduron:

"Y cartref yw lle bydd y teulu'n byw ac yn tyfu a lle'r fenyw yw meithrin hynny...ac mae gennym rai pobl Islamaidd triw yma, ac maen nhw'n credu hynny, ac mae'n gwbl gywir, ac ni allwn ymosod ar hynny i ddweud 'byddwch yn dod i hyn, oherwydd rydych chi'n byw yn Brambleton'. (t. 509)

Yn gyffredinol, mae Craig et al. (2007) a Hamm et al. (2010) yn pwysleisio pwrpas ymweliadau cartref wrth gefnogi gwell dealltwriaeth a chyfle i fynd i'r afael ag anghenion unigryw a chyd-destunau diwylliannol y boblogaeth darged. Er nad yw Craig et al. (2007) yn nodi cyfraddau cyfranogiad yn benodol, maent yn honni bod y rhan fwyaf o SSLPs yn cadw golwg ar nifer y teuluoedd sy'n defnyddio eu gwasanaethau, gan amrywio o 600 i 700 o deuluoedd y flwyddyn. Mewn un ardal astudiaeth achos lle mae mwyafrif y boblogaeth yn Bacistanaidd, roedd cyfran y cyfranogwyr Pacistanaidd mewn gwasanaethau bron yn cyfateb i'w cynrychiolaeth yn y boblogaeth gyffredinol.

Mae'r gwerthusiadau o Hawliau Addysg Gynnar am Ddim (Swyddfa Archwilio Genedlaethol 2020, Albakri et al. 2018) hefyd yn tynnu sylw at y defnydd o ymweliadau cartref fel strategaeth i gynyddu

ymwybyddiaeth a nifer y bobl sy'n derbyn FEEE, yn enwedig ar gyfer teuluoedd difreintiedig. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn adrodd bod awdurdodau lleol yn ceisio cynyddu'r defnydd drwy 'ymweld â rhieni gartref i ddweud wrthynt am yr hawliau a'u rhoi mewn cysylltiad â darparwyr' (t.26). Mae Albakri et al. (2017) yn cynnig cyd-destun pellach, gan nodi bod ymweliadau cartref yn fath o 'gyswllt uniongyrchol' a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i ymgysylltu â rhieni sy'n debygol o fod yn gymwys ond nad ydynt yn manteisio ar FEEE. Mae'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at achos mewn bwrdeistref tu allan i Lundain lle ystyriwyd bod "cyswllt uniongyrchol a pharhaus â rhieni," gan gynnwys cnocio o ddrws i ddrws yn seiliedig ar wybodaeth gan ganolfannau plant, yn allweddol o ran cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar yr hawliad i blant 2 oed.

Er bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2020) ac Albakri et al. (2018) yn cydnabod y potensial o ymweliadau cartref i wella nifer y teuluoedd sy'n manteisio ar FEEE, maent hefyd yn tynnu sylw at heriau a chyfyngiadau, gan y gall ymweliadau cartref fod yn ddwys o ran adnoddau, a allai lesteirio eu gweithredu'n eang (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 2020). Nododd Albakri et al. (2017) hefyd fod rhai awdurdodau lleol yn teimlo bod cnocio drysau (math o ymweliad cartref) yn llai effeithiol oherwydd bod rhieni'n teimlo ei fod yn rhy fusneslyd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nodwyd bod ymweliadau â chartrefi yn strategaeth bosibl i gynyddu ymwybyddiaeth o FEEE a'r nifer sy'n ei ddefnyddio, yn enwedig ymysg teuluoedd difreintiedig.

5.2 Derbynioldeb

Roedd astudiaethau'n archwilio'r berthynas rhwng staff o ansawdd uchel a denu rhieni i gofrestru eu plant. Roeddent hefyd yn ystyried i ba raddau y gall cyflogi staff sydd hefyd yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned wella ymddiriedaeth a derbynioldeb.

5.2.1 Gweithlu o ansawdd uchel

Mae gweithlu o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer darparu ECEC o ansawdd da ac yn ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar benderfyniad rhieni i gofrestru eu plant. Mae cymwysterau, hyfforddiant a thâl cystadleuol i gyd yn cyfrannu at ddenu a chadw staff i sicrhau'r ddarpariaeth ECEC gorau posibl ac, o ganlyniad, cynyddu'r nifer sy'n manteisio arni.

Mae cynnal ECEC o ansawdd uchel yn un o nodau craidd rhaglenni fel Dechrau'n Deg yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i staff gofal plant Dechrau'n Deg feddu ar gymwysterau uwch na'r rheini mewn lleoliadau nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg, gyda gofyniad sylfaenol o gymhwyster lefel 3 mewn gofal plant. Nod y rhaglen oedd gwella safonau ymhellach drwy gael arweinydd neu reolwyr i feithrin cymwysterau lefel 4 erbyn 2010 a sicrhau bod yr holl staff cymorth wedi ennill o leiaf lefel 3. Er na chyrraeddwyd targed 2010 ar gyfer cymwysterau lefel 4, roedd y rhaglen wedi cynyddu'n sylweddol nifer y staff â'r cymwysterau hyn yn gyffredinol (Llywodraeth Cymru 2013).

Mae adroddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru yn datgelu heriau staffio eang mewn lleoliadau gofal plant, gan gynnwys anawsterau wrth lenwi swyddi gwag, cyflenwi dros absenoldebau, a dod o hyd i gymorth 1:1 i blant. Gwaethygodd y materion hyn yn sgil pandemig COVID-19, gyda 19% o'r darparwyr a arolygwyd yn nodi effaith negyddol ar recriwtio. Mae gorflino ymysg staff a staff yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi yn bryderon ychwanegol. Yn Lloegr, mae Albaneri et al. (2018) yn tynnu sylw at sut mae cyfraddau cyllido annigonol yn atal darparwyr rhag cynnig cyflogau cystadleuol, gan gyfrannu at drosiant uchel o ran staff. Er bod darparwyr sy'n cynnig gofal plant wedi'i ariannu ar gyfer plant 2 oed yn cael eu cymell drwy hyrwyddo cydraddoldeb a gwella

canlyniadau ar gyfer plant difreintiedig, yn aml mae'n rhaid iddynt leihau'r gymhareb staffio ar gyfer plant 3 a 4 oed i'r cymarebau lleiaf a ganiateir (t. 34) i reoli costau.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) hefyd yn dadlau bod cyfraddau cyllido annigonol yn atal darparwyr gofal plant rhag cynnig cyflogau cystadleuol. Mae hyn yn cyfrannu at drosiant staff uchel, gan effeithio ar ansawdd y gofal a'i gwneud yn anodd meithrin perthynas gyson â phlant a theuluoedd (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020). Mae pryderon NDNA yn tanlinellu'r angen am well cyllid a strategaethau staffio i wella gwasanaethau gofal plant. Datgelodd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2020 broblemau staffio eang ar draws pob math o leoliadau gofal plant. Dywedodd darparwyr eu bod yn cael trafferth llenwi swyddi gwag, cyflenwi absenoldebau, a recriwtio cymorth 1:1 i blant. Mewn rhai achosion, roedd yn rhaid i leoliadau leihau capasiti neu gyfyngu ar leoedd ar gyfer plant iau oherwydd prinder staff. Gwaethygodd pandemig COVID-19 yr heriau hyn ymhellach, gyda 19% o'r darparwyr a arolygwyd yn adrodd am effaith negyddol ar recriwtio. Codwyd pryderon hefyd am staff yn gorweithio ac yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi, yn enwedig ymysg y rhai a oedd ar agor drwy gydol y pandemig.

5.2.2 Staff ECEC fel broceriaid diwylliannol

Caiff sawl strategaeth ei disgrifio i nodi sut y gall staff ECEC nodi, mynd ati a hwyluso'r broses o dderbyn gwasanaethau ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau difreintiedig yn Lloegr. Mae enghreifftiau o staff sy'n gweithredu fel broceriaid diwylliannol rhwng teuluoedd a gwasanaethau ECEC yn cynnwys darparu hyfforddiant a mentora mewn ysgolion fel bod y cwricwlwm yn berthnasol yn ddiwylliannol i grwpiau penodol, fel Sipsiwn, Roma a phlant teithwyr, ac ar yr un pryd, darparu gwybodaeth i deuluoedd mewn gwahanol ieithoedd i esbonio system ysgolion Prydain (Klaus et al., 2019).

Gwerthusodd Craig et al. (2007) Raglenni Lleol Cychwyn Cadarn (SSLPs) a gweld amrywiadau sylweddol yn amrywiaeth ethnig staff ar draws gwahanol raglenni. Roedd gan rai SSLP ganran uchel o staff o leiafrifoedd ethnig, ac ychydig iawn o staff oedd gan eraill. Mae'r awduron yn dadlau y dylai amrywiaeth y staff adlewyrchu'r gymuned a wasanaethir gan yr SSLP, yn enwedig gan y canfuwyd bod presenoldeb aelodau'r gymuned leol ymysg y staff yn gwella ymddiriedaeth a dealltwriaeth yn y gymuned. Canfuwyd bod cael staff sy'n siarad ieithoedd gwahanol yn gwella hygyrchedd gwasanaethau. Er enghraifft, roedd SSLP mewn ardal yng nghanol y ddinas yn cyflogi staff du ac ethnig leiafrifol a oedd, gyda'i gilydd, yn siarad hyd at 12 iaith wahanol, gan helpu teuluoedd Arabaidd ac eraill i deimlo'n llai ynysig ac yn fwy abl i ymgysylltu â'r gwasanaethau (Craig, 2007). Roeddent yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol staff Du ac Ethnig Leiafrifol fel modelau rôl, yn enwedig fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer defnyddwyr newydd (t. 10).

Fodd bynnag, nododd yr awduron hefyd heriau o ran cyflogi staff amrywiol. Roedd un rhaglen yn cael trafferth cynnal parhad o ran perthynas â rhieni pan oedd staff a oedd yn siarad iaith y rhieni yn absennol. Edrychodd Hamm (2010) hefyd ar raglen Cychwyn Cadarn mewn ardal aml-ethnig a chanfu fod y staff bron i gyd yn wyn, er bod y gymuned yn un Bacistanaidd yn bennaf. Ystyriwyd bod y diffyg cyfatebiaeth hwn yn rhwystr posibl i ymgysylltu. Ar ben hynny, roedd staff Du ac Ethnig Leiafrifol yn cael eu tangynrychioli mewn rolau rheoli, a oedd yn cael ei feirniadu am beidio ag adlewyrchu gwir berchnogaeth a dealltwriaeth y gymuned o anghenion defnyddwyr gwasanaeth Du ac Ethnig Leiafrifol. Ar

ben hynny, teimlai rhai staff nad oedd eu sensitifrwydd diwylliannol yn cael ei ategu gan uwch staff nad oeddent yn perthyn i grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Mae'r ddwy astudiaeth yn awgrymu bod sicrhau bod rhaglenni Cychwyn Cadarn ar gael i boblogaethau lleiafrifoedd ethnig yn gofyn am fynd i'r afael â'r materion staffio hyn er mwyn sicrhau bod rhaglenni'n fwy derbyniol ac annog teuluoedd o gefndiroedd amrywiol i ymgysylltu mwy.

5.3 Argaeledd

Mae argaeledd yn cyfeirio at bresenoldeb a hygyrchedd gwasanaethau gofal plant. Mae argaeledd gwahanol fathau o ddarparwyr addysg gynnar yn chwarae rhan hollbwysig yn y niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaethau.

5.3.1 Cyllid y Llywodraeth ar gyfer darparwyr gofal plant

Mae cyllid y Llywodraeth ar gyfer darparwyr gofal plant yn y DU fel arfer wedi ceisio cynyddu argaeledd, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a chanlyniadau i blant. Yn ystod y 2000au cynnar, un cynllun oedd darparu addysg blynyddoedd cynnar rhan-amser am ddim i blant tair oed ym mhob Awdurdod Addysg Lleol (AALI) yn Lloegr. Nod y cynllun oedd gwella cyflogaeth rhieni a meithrin datblygiad plant, gan dargedu plant difreintiedig yn benodol. Roedd cyflwyno'r polisi hwn yn cynyddu nifer y plant a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn, gyda'r ddarpariaeth yn codi o 37% i 87.9% rhwng 1999 a 2007. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y cynnydd mewn presenoldeb gwirioneddol yn gymharol fach, gyda dim ond 2.7 o leoedd gwirioneddol newydd yn cael eu creu ar gyfer pob deg lle a ariennir. Fodd bynnag, roedd y polisi hwn, yn gyffredinol, yn rhan o symudiad llywodraethol ehangach tuag at fuddsoddi mewn rhaglenni ymyrraeth gynnar. (Blanden et al. 2016).

Yn fwy diweddar, mae Premiwm Disgybl y Blynyddoedd Cynnar (EYPP) wedi cael ei gyflwyno i helpu i gau'r bwlch rhwng plant difreintiedig a'u cyfoedion drwy ddarparu cyllid i ddarparwyr blynyddoedd cynnar. Casglodd Roberts et al. (2017) ddata o 30 o leoliadau blynyddoedd cynnar yn Lloegr er mwyn deall sut roedd y rhaglen yn cael ei defnyddio. Maent yn adrodd bod y swm ariannu wedi'i bennu gan nifer y plant cymwys ym mhob lleoliad, gyda chyfradd genedlaethol o £300 i bob plentyn cymwys bob blwyddyn. Roedd cyfanswm y cyllid a dderbyniwyd gan ddarparwyr yn amrywio'n sylweddol o £300 i £4,000, gyda'r swm cyfartalog a dderbyniwyd yn £1,206.50. Roedd y mewnbwn ariannol hwn yn galluogi darparwyr i ymestyn eu horiau neu gynnig darpariaeth fwy hyblyg mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw. Roedd hyn yn cynnwys ymestyn y ddarpariaeth sesiynol i amser llawn a chynnig oriau ychwanegol i rieni a oedd eu hangen ond na allent eu fforddio heb gymorth ariannol.

5.3.2 Lleoliad wedi'i dargedu ar gyfer gwasanaethau addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar

Roedd llawer o Raglenni Lleol Cychwyn Cadarn (SSLP) yn ceisio cynyddu eu cyrhaeddiad a chysylltu â chymunedau lleiafrifoedd ethnig nad oeddent yn defnyddio eu gwasanaethau'n llawn. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu lleoliadau lloeren mewn ardaloedd â phoblogaethau lleiafrifoedd uwch i wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch a chyfleus i'r cymunedau hyn. 'Yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd lleiafrif yn fwyafrif o'r boblogaeth, roedd yn amlwg bod gwasanaethau SSLP yn debygol o gael eu cyrchu gan deuluoedd lleiafrifol gan mai nhw oedd y brif ffrwd'. (Craig et al., 2007, t. 34). Enghraifft o hyn oedd gosod gwasanaeth babanod ger mosg a fynychir gan y gymuned Bengali i hwyluso eu mynediad at wasanaethau eraill. Drwy ddod â gwasanaethau'n nes at ble'r oedd teuluoedd lleol yn byw a chael gwared ar rwystrau daearyddol, roedd gwasanaethau SSLP yn ceisio annog mwy i gymryd rhan (Craig et al. 2007).

5.4 Fforddiadwyedd

Mae fforddiadwyedd yn ffactor allweddol wrth bennu mynediad at ECEC, yn enwedig ar gyfer teuluoedd difreintiedig. Mae'r adran hon yn edrych ar bolisiau allweddol a weithredir yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon i wella fforddiadwyedd gofal plant. Rydym yn cyflwyno data ar effaith y polisiau hyn ar gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ofal plant.

5.4.1 Cynnig Gofal Plant Cymru

Mae Cynnig Gofal Plant Cymru, sy'n darparu 30 awr o ofal plant i blant 3 a 4 oed wedi'i ariannu gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio, wedi cael ei werthuso'n fwyaf diweddar ym Mlwyddyn 4 (2020-2021) ac mae Blwyddyn 5 (2021-2022) yn awgrymu bod defnydd cyson wedi bod o fis Medi 2020 i fis Awst 2021, er gwaethaf pandemig COVID-19. Er nad yw'n darparu data wedi'i ddadgyfuno ar gyfer teuluoedd o leiafrifoedd ethnig neu dan anfantais, mae'r adroddiad yn nodi bod y Cynnig Gofal Plant wedi cael yr effaith gadarnhaol fwyaf arwyddocaol ar deuluoedd incwm is, gan eu galluogi i barhau i gael eu cyflogi a chynyddu eu horiau gwaith a/neu eu henillion (Llywodraeth Cymru 2021).

5.4.2 Dysgu Cynnar a Gofal Plant a Ariennir (ELC) yn yr Alban

Yng Ngham 1 Astudiaeth yr Alban o Ddysgu Cynnar a Gofal Plant (SSELC), roedd y ffocws ar blant dwy oed cymwys a'r nifer sy'n manteisio ar addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu (ELC). Canfu'r astudiaeth fod "costau llawn ELC yn y lleoliad a gynhwyswyd yn yr arolwg wedi'u talu i 93% o rieni" (Hinchliffe, et al. 2019, t. 18). Roedd Cam 2 y SSELC yn edrych ar y nifer o blant pedair a phump oed oedd yn manteisio ar ELC. Canfu'r astudiaeth fod tua hanner y teuluoedd (47%) yn defnyddio gwasanaethau gofal plant ychwanegol y tu hwnt i'r ddarpariaeth ELC a ariennir. Fodd bynnag, roedd y defnydd hwn o ofal plant ychwanegol yn fwy cyffredin ymysg rhieni cwpl (50%) na rhieni sengl (37%) ac yn cynyddu wrth i lefelau amddifadedd ostwng (Hinchliffe et al. 2021a).

Roedd Cam 3 y SSELC yn canolbwyntio ar blant tair oed ac yn canfod gwahaniaethau yn y nifer oedd yn manteisio ar ELC a ariennir rhwng dau grŵp: "Plant 2 oed cymwys" (plant sy'n gymwys i gael cyllid ELC yn ddwy oed) a "Plant 3 oed i'w cymharu" (sampl o blant tair oed sy'n cynrychioli'r wlad). Canfu'r astudiaeth fod y rhan fwyaf o rieni yn y ddau grŵp wedi dweud bod costau llawn yr ELC wedi cael eu talu gan y llywodraeth, er bod y gyfran hon yn uwch ar gyfer plant 2 oed cymwys (92%) na'r plant 3 oed i'w cymharu (78%) (Hinchliffe et al. 2021b). Mae hyn yn awgrymu bod y ddarpariaeth Blynnyddoedd Cynnar a ariennir yn fwy tebygol o gael ei defnyddio gan deuluoedd a oedd eisoes yn gymwys pan oedd y plant yn ddwy oed, o bosibl oherwydd cymhwysedd parhaus ar sail ffactorau economaidd-gymdeithasol. Ar gyfer y plant 3 oed i'w cymharu, roedd cysylltiadau clir rhwng cyllid llawn a ffactorau demograffig. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr nad oeddent mewn gwaith neu hyfforddiant yn cael cyllid llawn, o'i gymharu â 73% o'r rheini a oedd yn gyflogedig neu'n cael hyfforddiant. Roedd teuluoedd incwm is hefyd yn fwy tebygol o gael cyllid llawn, gan nodi bod y ddarpariaeth ELC sy'n cael ei hariannu ar hyn o bryd yn targedu'n effeithiol y rheini sydd fwyaf angen cymorth ariannol ar gyfer gofal plant (Hinchliffe et al. 2021b).

5.4.3 Hawliau a ariennir yn Lloegr

5.4.3.1 Hawl i deuluoedd difreintiedig: 15 awr yr wythnos ar gyfer plant 2 oed difreintiedig

Nod yr Hawl i Blant 2 oed Difreintiedig yn Lloegr yw darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r broses gofrestru mewn addysg gynnar i blant o deuluoedd incwm isel neu deuluoedd nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus. Gall teuluoedd hefyd fod yn gymwys am resymau nad ydynt yn rhai economaidd e.e. mae ganddynt gynllun Addysg Iechyd a Gofal, maent yn derbyn lwfans byw i'r

anabl, yn derbyn gofal gan awdurdod lleol, neu wedi gadael gofal dan orchymyn mabwysiadu, gwarcheidwad arbennig, neu drefniadau plant.

Cyn y pandemig, yn 2019, roedd cyfradd hawlio ar gyfer plant 2 oed difreintiedig yn 68%, is na tharged yr Adran Addysg o 73-77% a oedd yn ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol o 72% yn 2018. Roedd y cyfraddau defnydd yn amrywio'n fawr ymysg awdurdodau lleol, gyda'r gyfradd isaf o 39% yn Tower Hamlets (Llundain) a'r uchaf o 97% yn Stockport (Manceinion Fwyaf). Hyd yn oed mewn un sir fel Essex, roedd y cyfraddau ardal yn amrywio o 58% i 99%. Datgelodd data a ddadansoddwyd ar gyfer y cyfnod hwn hefyd gysylltiad rhwng lefelau amddifadedd a chyfraddau defnydd. Roedd gan yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig gyfartaledd o 68%, a chyrraeddodd yr ardaloedd lleiaf difreintiedig 74%. (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020,). Yn yr un modd, roedd gan ardaloedd â chyfrannau uwch o blant o gefndiroedd ethnig leiafrifol a'r rheini â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) gyfraddau defnydd is yn gyffredinol (Albakri, 2011). Fodd bynnag, mae data diweddar yn awgrymu bod yr amcangyfrif o ganran y plant cymwys sydd wedi'u cofrestru ar gyfer yr hawl i deuluoedd difreintiedig wedi cynyddu o 69% yn 2020 i 74% yn 2023, gyda 30% ohonynt o gefndir ethnig leiafrifol (gweler yr [Adran Addysg, 2024](#)).

5.4.3.2 Hawliad cyffredinol: 15 awr yr wythnos i bob plentyn 3 a 4 oed.

Nod yr hawl gyffredinol yn Lloegr yw rhoi mynediad i bob plentyn tair a phedair oed at 15 awr o addysg gynnar am ddim bob wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. Mae pob plentyn yn yr ystod oedran hon yn gymwys nes eu bod yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol heb unrhyw brawf modd na chyfyngiadau eraill. Mae tystiolaeth o'r gronfa ddata Genedlaethol y Disgyblion yn 2010-2011 yn awgrymu nad oedd "un plentyn o bob pump yn cael mynediad i'w lle am ddim o'r cychwyn cyntaf, ac mae'r gyfran yn uwch o lawer ymysg plant o deuluoedd sydd ag incwm isel cyson" (Campbell et al. 2018 t.515). Fodd bynnag, ers hynny, mae'r nifer sy'n hawlio'r hawl gyffredinol wedi cynyddu, gan amrywio rhwng 93% a 95% rhwng 2015 a 2019 (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020, t. 6). Mae'r duedd hon wedi parhau, gan ostwng dim ond i 90% yn ystod y pandemig yn 2020 (LaValle et al. 2022) ond dychwelyd i 94% yn 2023. Fodd bynnag, lle cofnodwyd hynny, dim ond 28% o blant 3 a 4 oed sydd wedi'u cofrestru ar gyfer yr hawl gyffredinol sy'n dod o deuluoedd lleiafrifoedd ethnig.

5.4.3.3 Hawl estynedig: 15 awr ychwanegol yr wythnos ar gyfer plant 3 a 4 oed sydd â rhieni sy'n gweithio (hawl i 30 awr)

Mae'r hawl i 30 awr yn Lloegr ar gyfer rhieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio. Os yw'r ddau riant yn gweithio ac yn ennill o leiaf 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog cenedlaethol neu'r cyflog byw, ond o dan £100,000 y flwyddyn, maent yn gymwys i gael 15 awr ychwanegol o ofal plant wedi'i ariannu bob wythnos. Yn yr hawliad estynedig, a gyflwynwyd yn 2017, gwelwyd cyfradd hawlio o 80% yn 2019 (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2020, t. 6). Yn 2023, roedd 17% o blant 3 a 4 oed a gofrestrwyd ar gyfer yr hawl 30 awr yn dod o gefndiroedd ethnig leiafrifol, sy'n is na'r hawl gyffredinol a'r hawl i deuluoedd difreintiedig. (Yr Adran Addysg, 2024)

5.4.4 Rhaglen Addysg Cyn-Ysgol (PSEP)

Mae'r Rhaglen Addysg Cyn-ysgol (PSEP) yng Ngogledd Iwerddon yn cynnig blwyddyn o addysg cyn-ysgol a ariennir i bob plentyn cymwys yn ei flwyddyn cyn-ysgol uniongyrchol. Mae'r rhaglen ar gael yn gyffredinol ar gyfer gwasanaethau gorfodol, sy'n golygu ei bod yn agored i bob plentyn cymwys. Mae galw mawr amdani, gydag oddeutu 23,000 o blant yn cymryd rhan bob blwyddyn ers ei hehangu ym 1998. Mae'r llywodraeth wedi buddsoddi mewn ehangu nifer y lleoedd cyn-ysgol a

ariennir, gyda'r nod o sicrhau lle wedi'i ariannu ar gyfer pob plentyn oed targed y mae ei rieni'n dymuno hynny. Er nad yw'r union gyfraddau defnydd yn cael eu cyhoeddi, mae'r cyfuniad o argaeledd cyffredinol, galw uchel, a mwy o leoedd wedi'u hariannu yn awgrymu bod cyfran sylweddol o blant cymwys yn cymryd rhan yn y Rhaglen Addysg Cyn-ysgol (PSEP).

5.5 Bod yn Briodol

Mae priodoldeb yng nghyd-destun Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar (ECEC) yn cyfeirio at y graddau y mae gwasanaethau'n diwallu anghenion a disgwyliadau penodol teuluoedd a phlant. Pan ystyrir bod gwasanaethau'n briodol, maent yn fwy tebygol o gael eu defnyddio'n gyson. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant a theuluoedd difreintiedig, yn ogystal â phoblogaethau lleiafrifoedd ethnig, a allai wynebu heriau a rhwystrau unigryw.

5.5.1 Asesu anghenion a gwasanaethau ymatebol

Mae asesiadau o anghenion yn hanfodol er mwyn deall a mynd i'r afael ag anghenion penodol teuluoedd a phlant, a all arwain at ganlyniadau gwell a mwy o degwch mewn Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar (ECEC). Drwy gasglu gwybodaeth am yr heriau a'r rhwystrau unigryw a wynebir gan wahanol grwpiau, fel teuluoedd difreintiedig a phoblogaethau lleiafrifoedd ethnig, gall darparwyr gwasanaeth deilwra eu rhaglenni a'u hymyriadau i sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn deg.

Mae asesiadau o anghenion yn aml yn cael eu cynnal drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys arolygon, cyfweiliadau, grwpiau ffofws, ac arsylwadau. Mae'r dulliau hyn yn caniatáu i ddarparwyr gasglu gwybodaeth yn uniongyrchol gan rieni, plant a staff am eu profiadau, eu dewisiadau a'u heriau. Er enghraifft, yn Roberts et al. (2017), roedd darparwyr yn Lloegr yn defnyddio "arsylwadau a phrofiadau anffurfiol o weithio gyda phlant" a "data ar ddatblygiad a chynnydd plant" i lywio eu penderfyniadau gwario ar gyfer Premiwm Disgybl y Blynyddoedd Cynnar (EYPP).

Ar ôl nodi anghenion, gall darparwyr ddatblygu strategaethau ac ymyriadau wedi'u targedu, fel dyrannu adnoddau, darparu hyfforddiant i staff, addasu gwasanaethau, a chydweithio ag asiantaethau a sefydliadau eraill i ddarparu cymorth cynhwysfawr. Fodd bynnag, gall cynnal asesiadau cynhwysfawr o anghenion a gweithredu gwasanaethau wedi'u teilwra fod yn heriol, yn enwedig i ddarparwyr llai sydd ag adnoddau cyfyngedig. Mae cydbwysio anghenion plant unigol â chynaliadwyedd ac effeithiolrwydd hirdymor gwasanaethau ECEC yn hanfodol. Drwy fuddsoddi mewn adnoddau a hyfforddiant staff sydd o fudd i sawl carfan o blant, gall darparwyr sicrhau bod eu hymdrechion yn ymestyn y tu hwnt i achosion unigol.

Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar y defnydd a'r ddarpariaeth o wasanaethau Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar (ECEC) yn Lloegr. Dangosodd astudiaethau achos a gynhaliwyd yn ystod y pandemig fod ALLau wedi dangos y gallu i nodi a deall anghenion teuluoedd lleol yn gyflym a nodi cryfderau a gwendidau yn eu system ECEC leol. Roedd gwneud hynny yn eu galluogi i gymryd camau i gefnogi addysg gynnar a lles plant, yn ogystal â rhieni y mae angen iddynt gael mynediad at ECEC er mwyn gweithio. Maent hefyd wedi adeiladu partneriaethau cryfach gyda darparwyr lleol a gwasanaethau cefnogi teuluoedd eraill, a helpodd y system ECEC i weithredu yn ystod cyfnod o ansicrwydd mawr.

Fodd bynnag, mae gwendidau yn y system ECEC. Dangosodd yr ymchwiliad gan LaValle et al. (2022) amrywiad sylweddol yng ngallu timau Awdurdodau Lleol i gefnogi'r system ECEC. Mewn rhai ardaloedd, ystyriwyd bod ECEC yn flaenoriaeth allweddol, gydag adnoddau a staff digonol, ac mewn meysydd eraill, roedd y cymorth yn dameidiog, yn gyfyngedig ac wedi'i gydlynu'n wael. Mewn rhai

achosion, nid oedd goruchwyliaeth strategol o'r hyn a wnaeth awdurdodau lleol i gefnogi'r system ECEC.

5.5.2 Sensitifrwydd Diwylliannol

Nod Cychwyn Cadarn oedd gwella iechyd a lles plant a theuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig. Er bod ethos a ffocws cyffredinol y rhaglen yn parhau'n gyson, roedd y staff a oedd yn darparu gwasanaethau Cychwyn Cadarn hefyd yn ceisio addasu eu dulliau gweithredu i anghenion penodol y cymunedau roeddent yn eu gwasanaethu. Tynnodd astudiaeth gan Hamm (2010) sylw at y gallu hwn i addasu, yn enwedig o ran sut yr ymatebodd staff Cychwyn Cadarn i anghenion mamau Pacistanaidd. Roedd llawer o'r menywod hyn yn byw mewn teuluoedd estynedig, a allai gefnogi a chyfyngu ar eu gweithredoedd. Roedd y staff yn cydnabod pwysigrwydd parchu normau diwylliannol y mamau Pacistanaidd ar yr un pryd â darparu cyfleoedd iddynt ehangu eu rolau a chael gafael ar wasanaethau y tu allan i'r cartref.

Er bod Cychwyn Cadarn yn dangos hyblygrwydd a sensitifrwydd diwylliannol mewn llawer o achosion, mae'r astudiaeth gan Craig et al. (2007) yn awgrymu bod lle i wella, yn enwedig o ran teilwra gwasanaethau i anghenion grwpiau ethnig penodol. Argymhellodd yr awduron y dylai Rhaglenni Lleol Cychwyn Cadarn (SSLP) gael arweiniad a chefnogaeth ychwanegol i ddeall ac ymateb i anghenion amrywiol eu cymunedau. Dylai'r canllawiau hyn gynnwys hyfforddiant sensitifrwydd diwylliannol cynhwysfawr i staff, gan sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu'n barchus ac yn briodol â theuluoedd o wahanol gefndiroedd diwylliannol. I gloi, er bod staff Cychwyn Cadarn yn dangos hyblygrwydd a sensitifrwydd diwylliannol wrth ddarparu gwasanaethau, mae angen mireinio a theilwra gwasanaethau ymhellach er mwyn diwallu anghenion unigryw cymunedau amrywiol. Drwy ymgorffori argymhellion megis hyfforddiant sensitifrwydd diwylliannol gwell, allgymorth wedi'i dargedu, staffio amrywiol a gwasanaethau iaith, gall Cychwyn Cadarn hyrwyddo ei genhadaeth o ddarparu cefnogaeth deg ac effeithiol i bob plentyn a theulu, waeth beth fo'u cefndir diwylliannol.

6 Trafodaeth

Yn y bennod hon, rydym yn dwyn ynghyd y canfyddiadau cyfunol o ran rhwystrau, galluogwyr ac ymyriadau i gynyddu cyfranogiad mewn addysg a gofal blynyddoedd cynnar ymysg plant a theuluoedd o leiafrifoedd ethnig a difreintiedig. Yn gyntaf, rydym yn defnyddio'r ddau synthesis i gyflwyno fersiwn wedi'i diweddarau o fframwaith Archambault et al. 2019 ar gyfer cael mynediad at Addysg a Gofal Plentynod Cynnar gan ddefnyddio'r is-themâu a gynhyrchwyd ym mhob synthesis cyn crynhoi'r prif ganfyddiadau o dan bob maes fframwaith (gweler adran 6.1 a ffigur 6.1). Yn ail, rydym yn cyflwyno goblygiadau ar gyfer polisi, ymarfer ac ymchwil (adran 6.2) ac yn myfyrto ar gryfderau a chyfyngiadau'r adolygiad hwn.

6.1 Crynodeb o'r canfyddiadau a'r themâu trawsbynciol


Ar sail y dystiolaeth a adolygwyd, rydym wedi diweddarau'r fframwaith ar gyfer mynediad at addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar (a gyflwynwyd gyntaf yn adran 1.3). Mae ochr y galw yn siarad am nodweddion unigol teuluoedd sy'n chwilio am ofal plant (e.e. gwybodaeth, canfyddiad ac ymwybyddiaeth). Mae'r amgylchedd cymdeithasol, diwylliannol a ffisegol hefyd yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o geisio cael gafael ar wasanaethau ECEC ac ymgysylltu â nhw. Mae ochr gyflenwi gofal plant yn cyfeirio at nodweddion y system gofal plant a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau, fel y mathau o raglenni, ansawdd, oriau gweithredu, a chymwysterau staff. Mae'r amgylchedd

sefydliadol yn cynnwys polisiâu'r llywodraeth, dulliau cyllido, a lleoliad gwasanaethau gofal plant. Mae'r rhyngweithio rhwng y ffactorau cyflenwi ac ochr y galw hyn yn pennu hygyrchedd, derbynioldeb a fforddiadwyedd gofal plant i deuluoedd, yn enwedig y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a difreintiedig.

6.1.1 Hygyrchedd ac adnabod anghenion gofal plant yn weithredol

- **Mae rhieni'n ymwybodol o hawliau gofal plant ond mae bylchau i'w gweld:** Er bod y rhan fwyaf o rieni'n ymwybodol o'r Hawliau Addysg Gynnar am Ddim (FEEE), mae bylchau mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg grwpiau penodol, fel teuluoedd ethnig leiafrifol a theuluoedd difreintiedig. Gall camsyniadau ynghylch meini prawf cymhwysedd a dryswch ynghylch y mathau o hawliau fod yn risg i'r nifer sy'n hawlio.
- **Mae rhwydweithiau cymunedol ac anffurfiol yn hanfodol ond yn gyfyngedig:** Mae cyfathrebu ar lafar yn codi ymwybyddiaeth yn sylweddol, yn enwedig ymysg teuluoedd difreintiedig. Fodd bynnag, gall hyn greu rhwystrau i'r rheini nad ydynt wedi'u cysylltu'n dda yn eu cymunedau. Mae diffyg systemau gwybodaeth a rhwydweithiau rhanbarthol canolog, yn enwedig ar gyfer teuluoedd difreintiedig ac ethnig leiafrifol.
- **Gall strategaethau marchnata a negeseua godi ymwybyddiaeth o wasanaethau ECEC:** Gall ymgyrchoedd marchnata cyffredinol godi ymwybyddiaeth, sy'n cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan. Gall ymgyrchoedd wedi'u targedu, gyda negeseuon wedi'u teilwra (e.e. cardiau post, talebau) a deunyddiau amlieithog, gyrraedd demograffeg benodol yn effeithiol.
- **Ymweliadau cartref fel dull pwerus:** Nodwyd bod ymweliadau cartref yn hanfodol er mwyn ymgysylltu â theuluoedd ethnig leiafrifol a difreintiedig. Maent yn darparu ffordd ddiwylliannol sensitif a hygyrch o feithrin ymddiriedaeth, mynd i'r afael ag anghenion unigol, a chynnig cymorth personol. Fodd bynnag, gallant fod yn ddwys o ran adnoddau ac efallai na fyddant yn ymarferol i'w gweithredu'n eang.

Ffigur 6.1 Fframwaith Mynediad wedi'i ddiweddarau i Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar (datblygu o Archambault et al. 2019)



- **Gall cyfyngiadau ariannol gyfyngu ar gyflawni ymdrechion marchnata ac allgymorth:** gall cyfieithu'r holl ddeunyddiau fod yn gostus, a gall atebion eraill, fel darparu rhifau cyswllt mewn gwahanol ieithoedd, fod yn annigonol.

Yn gyffredinol, er bod ymwybyddiaeth gyffredinol o raglenni FEEE ac ECEC yn uchel, mae angen allgymorth a chymorth wedi'u targedu i sicrhau bod pob teulu, yn enwedig y rhai sy'n wynebu anfantais, yn gallu cael gafael ar wybodaeth gywir ac yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am addysg gynnar eu plant.

6.1.2 Derbynioldeb a cheisio gofal plant yn weithredol

- **Yn gyffredinol, mae rhieni'n cydnabod manteision ECEC:** Mae rhieni'n cydnabod manteision ECEC o ran meithrin sgiliau cymdeithasol plant a pharodrwydd i fynd i'r ysgol a chynnig seibiant i rieni. Mae rhieni mudol yn gwerthfawrogi ECEC yn arbennig am ddarparu addysg a sgiliau iaith na allant eu cynnig gartref. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd addysg bellach a chyflogaeth, yn enwedig i famau mudol.
- **Mynegodd rhieni bryderon hefyd am ansawdd gwasanaethau ECEC:** Mae materion sy'n ymwneud ag ansawdd gwasanaethau ECEC, megis cymwysterau staff, cyfleusterau annigonol, amgylcheddau anniddorol, a sylw unigol annigonol, yn cyfrannu at betruster i ddefnyddio gwasanaethau ECEC. Roedd y pryderon hyn yn arbennig o ddwys i rieni plant ifanc iawn.
- **Mae ffactorau cymdeithasol a diwylliannol yn dylanwadu ar agweddau tuag at ECEC:** Efallai y bydd rhieni'n teimlo'n ansicr ynghylch eu sgiliau llythrennedd neu alluoedd academiaidd eu plentyn, gan amharu ar eu hymgysylltiad â gwasanaethau ECEC. Gall aelodau estynedig o'r teulu ystyried mai cyfrifoldeb y teulu yn unig yw gofal plant, gan annog menywod i beidio â defnyddio gwasanaethau ECEC. Ar ben hynny, gall diffyg cynhwysiant diwylliannol mewn rhai lleoliadau ddieithrio teuluoedd o gefndiroedd amrywiol.
- **Gall ansawdd ac amrywiaeth staff ECEC effeithio ar ymgysylltiad rhieni:** Mae staff o ansawdd uchel sydd â chymwysterau a hyfforddiant perthnasol yn hanfodol ar gyfer darparu ECEC o ansawdd da a denu rhieni i gofrestru eu plant. Gall cyflogi staff sydd hefyd yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned wella ymddiriedaeth a derbynioldeb. Gall staff sy'n siarad sawl iaith ac sy'n deall nodweddion diwylliannol wasanaethu teuluoedd o gefndiroedd amrywiol yn well.
- **Staff ECEC fel broceriaid diwylliannol:** Gall staff ECEC bontio'r bwlch rhwng teuluoedd a gwasanaethau. Gall hyn gynnwys darparu cwricwla sy'n berthnasol yn ddiwylliannol, cyfieithu gwybodaeth, a gweithredu fel modelau rôl ar gyfer plant o gefndiroedd amrywiol.
- **Gall cadw staff ac amrywiaeth fod yn her:** Gall cyllid annigonol atal darparwyr rhag cynnig cyflogau cystadleuol, gan arwain at drosiant staff uchel ac effeithio'n negyddol ar ansawdd y gofal. Gall diffyg cynrychiolaeth o staff Du ac Ethnig Leiafrifol mewn rolau rheoli lesteirio perchnogaeth gymunedol a dealltwriaeth o anghenion lleol.

Yn gyffredinol, er bod llawer o rieni'n cydnabod manteision posibl ECEC, mae ffactorau amrywiol yn dylanwadu ar eu penderfyniadau. Mae mynd i'r afael â bylchau mewn dealltwriaeth, rhwystrau diwylliannol, pryderon ansawdd, a heriau staffio yn hanfodol er mwyn cynyddu'r broses o chwilio a defnyddio gwasanaethau ECEC yn weithredol.

6.1.3 Argaeledd ac estyn allan yn weithredol

- **Mae iaith yn rhwystr i deuluoedd mudol a ffoaduriaid ddefnyddio gofal plant:** Mae teuluoedd mudol a ffoaduriaid yn aml yn wynebu rhwystrau iaith sylweddol sy'n effeithio ar ruglder eu plant yn yr iaith genedlaethol, gan arwain at bryderon ynghylch paratoi academaidd a chynhwysiant cymdeithasol. Gall cam-gyfathrebu rhwng athrawon a rhieni ddigwydd yn sgil disgwyliad bod plant yn siarad yr iaith fwyafrifol (megis Saesneg), gan achosi anghysur a chamddealltwriaeth. Gall hyn arwain at ddewis gofal yn y teulu.
- **Gall statws mewnfudo a statws cyflogaeth gyfyngu ar fynediad at ofal plant.** Gall statws mewnfudo a rhwystrau cyflogaeth gyfyngu ar ddewisiadau gofal plant ar gyfer teuluoedd mewnfudwyr. Mae cyfyngiadau ar adnoddau, fel rhestrau aros hir, costau uchel, a chymhwysedd ar gyfer cymorthdaliadau, yn cyfyngu ar fynediad at ofal plant. Ar ben hynny, mae mamau sy'n ddi-waith neu mewn gwaith ansicr yn wynebu hyd yn oed mwy o anawsterau o ran cael gafael ar wasanaethau gofal plant, sy'n cael eu gwaethygu ymhellach gan y cyfyngiadau hyn ar adnoddau.
- **Mae argaeledd a hygyrchedd gofal plant dal yn her sylweddol i lawer o deuluoedd.** Mae teuluoedd yn ei chael yn anodd cael gofal plant addas oherwydd prinder lleoedd, rhestrau aros a gwasanaethau ffurfiol. Mae gofal anffurfiol, fel neiniau a theidiau, yn aml yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gofal plant hyblyg a dibynadwy. Mae rhieni'n aml yn gweld bod y gwasanaethau presennol yn annigonol, gan arwain at fwy o ddibyniaeth ar ofal anffurfiol.
- **Mae cyllid y Llywodraeth wedi cynyddu mynediad at ECEC:** Mae cyllid y Llywodraeth ar gyfer darparwyr gofal plant yn ganolog i gynyddu argaeledd a gwella ansawdd a hyblygrwydd gwasanaethau ECEC. Fodd bynnag, gallai'r effaith ar bresenoldeb gwirioneddol fod yn fwy cymedrol na'r disgwyl, gan dynnu sylw at yr angen i fonitro strategaethau'n ofalus.
- **Gall lleoli gwasanaethau wedi'i dargedu helpu i gyrraedd cymunedau:** Gall gwasanaethau ECEC fod mewn sefyllfa strategol i wella hygyrchedd a chynyddu cyrhaeddiad. Gall lleoliadau lloeren mewn ardaloedd lleiafrifol-mwyafrifol gael gwared ar rwystrau daearyddol ac annog cyfranogiad.

6.1.4 Fforddiadwyedd a mynediad gweithredol

- **Gall rhaglenni a hawliadau a ariennir gan y Llywodraeth gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ECEC, ond mae amrywiad i'w weld:** Nod amrywiol raglenni a hawliadau a ariennir gan y Llywodraeth yw gwella mynediad at wasanaethau ECEC yn y DU:
 - Yng **Nghymru**, mae'r Cynnig Gofal Plant wedi gweld defnydd cyson a budd-daliadau i deuluoedd ar incwm is.
 - Yn yr **Alban**, mae tystiolaeth o ddefnydd cyson o gynigion gofal plant am ddim, yn enwedig ymysg y rheini sydd eisoes yn gymwys yn ddwy oed a'r rheini sydd ag incwm is
 - Yn **Lloegr**, er bod cyfraddau hawlio wedi cynyddu'n gyffredinol, maent yn amrywio ymysg ardaloedd difreintiedig a gallant fod yn is ar gyfer teuluoedd lleiafrifoedd ethnig.
 - Yng **Ngogledd Iwerddon**, mae galw mawr a chais am fuddsoddiad gan y Llywodraeth i ehangu addysg cyn-ysgol a ariennir, sy'n gymwys ar gyfer pob plentyn
- **Rhwydweithiau perchnogaeth ac atebion gofal plant hyblyg:** Mae llawer o deuluoedd yn dibynnu ar rwydweithiau sy'n berthnasau ar gyfer gofal plant oherwydd cyfyngiadau ariannol a'r angen am atebion hyblyg. Mae neiniau a theidiau ac aelodau eraill o'r teulu yn

aml yn darparu gofal, er bod y trefniant hwn yn heriol. Mae teuluoedd mudol a ffoaduriaid yn aml yn dibynnu ar drefniadau gofal traws-wladol i reoli costau gofal plant a gofynion gwaith.

6.1.5 Priodoldeb ac ymgysylltiad gweithredol

- **Mae perthnasoedd dibynadwy a chefnogol yn paratoi'r ffordd i rieni deimlo'n gyfforddus gyda gwasanaethau ECEC:** Mae sefydlu perthnasoedd cefnogol ac ymddiriedus rhwng teuluoedd a darparwyr yn hanfodol er mwyn parhau i ymgysylltu â'r gwasanaeth. Mae'r ymddiriedaeth a'r gefnogaeth hon yn cael eu meithrin drwy ryngweithio a thryloywder cyson a chadarnhaol rhwng teuluoedd a staff ECEC. Pan fydd staff yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau, maent yn meithrin perthnasoedd ystyrion sy'n hwyluso dealltwriaeth, ymgysylltu a defnyddio gwasanaethau'n effeithiol. Mae'r cysylltiadau hyn yn hanfodol ar gyfer creu amgylchedd lle mae teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Gall diffyg ymddiriedaeth, sy'n aml yn deillio o gam-drin gwybodaeth gyfrinachol neu brofiadau negyddol yn y gorffennol, atal cyfranogiad yn sylweddol.
- **Mae addasrwydd gwasanaethau ECEC yn ffactor allweddol o ran eu defnyddio.** Mae rhieni yn aml yn teimlo bod gwasanaethau ECEC yn anaddas oherwydd amseroedd sesiynau anhyblyg nad ydynt yn darparu ar gyfer eu hanghenion penodol, megis diwrnodau byrrach ar gyfer plant iau. Gall rhwystrau strwythurol, fel diffyg cludiant ac anallu i ddarparu ar gyfer grwpiau oedran gwahanol, lesteirio mynediad at wasanaethau. Ar ben hynny, gall staff wynebu heriau oherwydd diffyg hyfforddiant neu adnoddau i weithio gyda theuluoedd amrywiol ac anghenion cymhleth.
- **Mae asesiadau o anghenion yn hanfodol er mwyn deall a mynd i'r afael â gofynion penodol teuluoedd a phlant.** Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth gan gymunedau ac ymgysylltu'n weithredol â nhw i gryfhau lleisiau plant a theuluoedd o gymunedau ethnig leiafrifol. Unwaith y bydd anghenion wedi'u nodi, mae angen eu gweithredu mewn ffyrdd sy'n ddiwylliannol sensitif. Mae'r meysydd allweddol yn cynnwys dyrannu adnoddau, darparu hyfforddiant i staff, a chydweithio ag asiantaethau eraill.
- **Mae gwasanaethau ECEC yn elwa o fod yn ddiwylliannol sensitif ac addasadwy i anghenion cymunedau amrywiol.** Mae rhaglenni ECEC wedi dangos pwysigrwydd addasu i normau ac anghenion diwylliannol penodol y gymuned. Fodd bynnag, mae lle i wella o ran teilwra gwasanaethau i grwpiau ethnig penodol, gydag argymhellion ar gyfer hyfforddiant sensitifrwydd diwylliannol cynhwysfawr, allgymorth wedi'i dargedu, staffio amrywiol a gwasanaethau iaith.

Yn gyffredinol, mae sicrhau priodoldeb ac ymgysylltiad gweithredol â gwasanaethau ECEC yn cynnwys mynd i'r afael â materion ymddiriedaeth, goresgyn rhwystrau strwythurol, cynnal asesiadau anghenion cynhwysfawr, a dangos sensitifrwydd diwylliannol.

6.2 Goblygiadau

6.2.1 Goblygiadau ar gyfer polisi ac ymarfer

- Gall **strategaethau allgymorth lleol a diwylliannol sensitif** fynd i'r afael â bylchau mewn dealltwriaeth a chamsyniadau am hawliau gofal plant ymhlith grwpiau penodol fel teuluoedd ethnig leiafrifol a chymunedau difreintiedig. Gall hyn gynnwys digwyddiadau cymunedol, gweithdai a sesiynau gwybodaeth a gynhelir ar y cyd â chanolfannau cymunedol

lleol, sefydliadau crefyddol a sefydliadau diwylliannol, gyda deunyddiau ar gael mewn sawl iaith ac wedi'u teilwra i anghenion a phryderon cymunedol penodol.

- Mae **cyfathrebu clir a syml** yn helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae symleiddio'r iaith mewn deunyddiau gwybodaeth am hawliau gofal plant a defnyddio cymhorthion gweledol, ffeithluniau a fideos yn gallu goresgyn rhwystrau iaith yn effeithiol. Dylai meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth ariannol a chymorthdaliadau gael eu cyfleu'n glir, a gall symleiddio prosesau ymgeisio helpu teuluoedd sydd angen help i'w llywio.
- **Gall arweinwyr cymunedol (fel hynafiaid brodorol, arweinwyr eglwysi, hwyluswyr grwpiau chwarae, cynrychiolwyr gwasanaeth, cynrychiolwyr mentrau lleol neu aelodau o Gyngorau Dinas lleol), darparwyr gofal iechyd, a gweithwyr cymdeithasol ddsbarthu gwybodaeth gywir am hawliau a chynorthwyo teuluoedd gyda'r broses ymgeisio**, ond efallai y bydd angen hyfforddiant arnynt. Gall cymorth wyneb yn wyneb, fel desgiau cymorth neu stondinau gwybodaeth mewn lleoliadau strategol fel llyfrgelloedd cyhoeddus, canolfannau gofal iechyd, ysgolion a chanolfannau cymunedol, ddarparu cymorth un-i-un.
- Gall cyflogwyr, yn enwedig y rheini sydd â llawer o weithwyr ethnig leiafrifol, **ddarparu gwybodaeth am hawliau gofal plant drwy seminarau a deunyddiau gwybodaeth yn y gweithle**. Gallai cydweithio ag ysgolion a meithrinfeydd i sicrhau bod rhieni'n cael gwybodaeth yn ystod cyfarfodydd rhieni-athrawon, cyfnodau cofrestru, a thrwy gylchlythyrau ysgol hefyd bontio bylchau mewn dealltwriaeth o raglenni a ariennir gan y llywodraeth.
- Gall **adborth a gwelliant parhaus** sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei thargedu ac yn hygyrch. Mae gweithredu dulliau adborth i asesu effeithiolrwydd strategaethau cyfathrebu ac ymdrechion allgymorth yn rheolaidd yn hanfodol. Gall arolygon, grwpiau ffocws ac ymgynghoriadau cymunedol roi cipolwg ar y rhwystrau a wynebir gan wahanol grwpiau. Gall diweddariadau parhaus i ddeunyddiau gwybodaeth a rhaglenni allgymorth yn seiliedig ar adborth fod yn fuddiol.
- **Mae gwella ansawdd a pherthnasedd diwylliannol gwasanaethau ECEC yn bwysig**. Gall datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff ECEC, gan ganolbwyntio ar sgiliau addysgu a sensitifrwydd traws-ddiwylliannol, helpu. Gall uwchraddio cyfleusterau ECEC i sicrhau eu bod yn ddiogel, yn groesawgar ac yn meddu ar ddeunyddiau dysgu diddorol leddfu pryderon rhieni am ansawdd gofal.
- **Gall broceriaid diwylliannol a chysylltiadau cymunedol feithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd, darparu gwybodaeth, a hwyluso cyfathrebu rhwng rhieni a staff ECEC**. Gall gweithio mewn partneriaeth â mudiadau cymunedol lleol, sefydliadau crefyddol a grwpiau diwylliannol hyrwyddo gwasanaethau ECEC. Gall gweithdai a grwpiau cefnogi i rieni wella dealltwriaeth o fanteision ECEC a'u grymuso i gefnogi dulliau dysgu eu plant gartref.
- **Gall recriwtio a chadw gweithlu ECEC amrywiol sy'n adlewyrchu demograffeg gymunedol helpu**. Gall polisiâu cynhwysol sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol,

fel darparu ar gyfer cyfyngiadau dietegol ac arferion crefyddol, wneud i deuluoedd deimlo bod croeso iddynt.

- **Gall cynnig oriau hyblyg a lleoliadau ar gyfer gwasanaethau ECEC ddarparu ar gyfer amserlenni amrywiol rhieni sy'n gweithio, yn enwedig y rheini sydd ag oriau gwaith anhraddodiadol.** Gall integreiddio gwasanaethau cymorth cyflogaeth mewn canolfannau ECEC helpu rhieni i ddod o hyd i gyflogaeth sefydlog, gan wella eu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau gofal plant a sefydlogrwydd teuluol yn gyffredinol.
- **Gall byrddau cynghori cymunedol sy'n cynnwys rhieni, staff ECEC, ac arweinwyr cymunedol arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu polisiau a rhaglenni ECEC,** gan sicrhau bod lleisiau teuluoedd ethnig leiafrifol a difreintiedig yn cael eu clywed a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau.
- Gall **darparu cefnogaeth iaith ac adnoddau amlieithog,** megis staff sy'n rhugl yn yr ieithoedd a siaredir gan y gymuned leol, dosbarthiadau iaith i rieni a phlant, cyfieithu deunyddiau, a gwasanaethau dehongli iaith, fod yn ddefnyddiol.
- **Gall ehangu capasiti cyfleusterau ECEC presennol a sefydlu canolfannau newydd mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol leihau rhestrau aros a chynyddu argaeledd manau.** Gall cyllid parhaus a chynyddol ar gyfer darparwyr ECEC wella ansawdd gwasanaethau, cyflogau staff a rhaglenni hyfforddi, gan helpu i ddenu a chadw staff cymwysedig a gwella ansawdd cyffredinol. Gall systemau monitro a gwerthuso cadarn asesu effeithiolrwydd cyllid a rhaglenni, gan lywio addasiadau i bolisi ac ymarfer.

6.2.2 Goblygiadau ar gyfer ymchwil

Mae'r adolygiad hwn yn tynnu sylw at nifer o fylchau a meysydd ar gyfer ymchwil yn y dyfodol:

- Mae bwlch nodedig yn y sylfaen dystiolaeth ynghylch safbwyntiau pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar fynediad at ofal plant o'r DU. Mae'n flaenoriaeth casglu data ansoddol gan gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i ddeall eu heriau a'u hanghenion unigryw o ran cael mynediad at Addysg a Gofal yn y Blynyddoedd Cynnar (ECEC). Bydd hyn yn helpu i ddatblygu polisiau ac arferion sy'n ymateb yn ddiwylliannol sy'n sicrhau mynediad cyfartal i'r grwpiau hyn.
- Mae casglu a dadgyfuno data'n rheolaidd o ran cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn hanfodol ar gyfer gwerthuso ymyriadau a pholisiau sydd wedi'u hanelu at gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r data manwl hwn yn galluogi llunwyr polisi i nodi rhwystrau a heriau penodol sy'n wynebu gwahanol grwpiau ethnig, gan sicrhau ymyriadau effeithiol wedi'u targedu. Ar ben hynny, mae'n helpu i asesu effaith y polisiau hyn, hyrwyddo atebolrwydd, a llywio strategaethau yn y dyfodol.
- Mae'r adolygiad hwn yn dangos y gallai strategaethau allgymorth sydd wedi'u targedu ac sy'n briodol yn ddiwylliannol fynd i'r afael â'r diffyg dealltwriaeth a chamsyniadau am hawliau gofal plant ymhlith grwpiau penodol, fel teuluoedd lleiafrifoedd ethnig a theuluoedd incwm is; byddai eu heffaith o ran cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ECEC yn elwa o werthusiad pellach.
- Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at rôl rhwydweithiau cymunedol anffurfiol o ran lledaenu ymwybyddiaeth o wasanaethau ECEC. Mae angen rhagor o ymchwil i archwilio sut mae'r

rhwydweithiau hyn yn gweithredu ar draws gwahanol grwpiau ethnig ac economaidd-gymdeithasol a sut gall systemau ffurfiol eu defnyddio neu eu cefnogi i wella allgymorth ac ymgysylltiad.

- Mae llawer o deuluoedd ethnig leiafrifol a difreintiedig yn dibynnu ar rwydweithiau teulu estynedig ar gyfer gofal plant, yn aml oherwydd dewisiadau diwylliannol neu reidrwydd economaidd. Gallai ymchwil yn y dyfodol sy'n ymchwilio i rôl neiniau a theidiau a pherthnasau eraill wrth ddarparu gofal plant ac ansawdd yr amgylchedd dysgu gartref yn y lleoliadau hyn wella gwybodaeth am sut y gall gwasanaethau ECEC ffurfiol a gofal plant anffurfiol ategu ei gilydd.
- Mae angen astudiaethau hydredol arfaethedig i barhau i asesu effaith gwahanol ymyriadau polisi, fel hawliau cyllido ac oriau gofal plant estynedig, ar gyfraddau mynediad ECEC ar gyfer teuluoedd ethnig leiafrifol a difreintiedig. Mae angen dadansoddi amrywiadau rhanbarthol hefyd i ganfod arferion gorau a bylchau polisi.

6.3 Cryfderau a chyfyngiadau

Mae'r adolygiad cyflym hwn o dystiolaeth yn defnyddio dulliau ar gyfer llunio crynodebau tystiolaeth sy'n berthnasol i bolisi o astudiaethau ansoddol a dulliau cymysg i ateb cwestiynau cymhleth (Wilson et al. 2021). Roedd yn ceisio llunio tystiolaeth gyffredinol a thystiolaeth a all fod yn sail i benderfyniadau polisi lleol. (Oliver et al. 2018). Ffordd allweddol o ddewis dulliau adolygu cyflym yw ymgynghori â rhanddeiliaid i fireinio'r cwestiwn ymchwil, cynnal chwiliadau rhagarweiniol, a mapio'r llenyddiaeth sydd ar gael. Er ein bod yn gallu cynnal gwaith cwmpasu cychwynnol i ymgynghori a rheoli disgwyliadau ynghylch swmp a math y llenyddiaeth sydd ar gael gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau polisi, roedd yr adolygiad yn cael ei lesteirio gan ddiffyg ymgynghori â rhieni du ac ethnig leiafrifol. Mae'r diffyg ymgysylltu hwn â chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn gyfle a gollwyd i sicrhau bod eu lleisiau, eu profiadau a'u blaenoriaethau yn ganolog i'r broses ymchwil. Felly, byddai ymchwil yn y dyfodol yn y maes hwn yn elwa ar gydweithio teg i sicrhau bod ymchwil yn mynd i'r afael ag anghenion a phryderon penodol poblogaethau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y DU.

Pan fydd amser yn brin, yr ail ffordd o ddewis dulliau yw symleiddio'r broses arfarnu feirniadol a dewis dulliau i gyfuno astudiaethau sy'n gallu manteisio i'r eithaf ar berthnasedd polisi. Yn yr adolygiad hwn, gwnaethom ganolbwyntio mwy ar briodoldeb a pherthnasedd yr ymchwil i ateb cwestiynau'r adolygiad a lleihau nifer y cwestiynau a ddefnyddiwyd i asesu ansawdd a chydlynid methodolegol astudiaethau. Defnyddir y dull hwn yn aml wrth lunio tystiolaeth i lywio penderfyniadau lleol yn hytrach nag wrth lunio tystiolaeth gyffredinol, ond mae'n cyfyngu ar y graddau y gellir gwneud datganiadau am ddibynadwyedd cyffredinol y sylfaen dystiolaeth (Oliver et al. 2015, Dickson 2017). Mae defnyddio crynodeb fframwaith hefyd yn ddewis sy'n effeithlon o ran amser wrth lywio drwy set ddata fawr, gan ei fod yn ein galluogi i nodi themâu ategol o fewn ac ar draws pob crynodeb. Fodd bynnag, efallai fod gwahaniaethau pwysig wedi cael eu colli drwy flaenoriaethu cyffredinrwydd wrth edrych ar draws data ar amrywiaeth o boblogaethau, dulliau ymyrryd, lleoliadau daearyddol, a chyfnodau amser.

Drwy flaenoriaethu barn teuluoedd sy'n aml ar y cyrion ac yn cael eu tangynrychioli mewn ymchwil, mae crynodeb data ansoddol wedi ceisio canoli eu profiadau a'u safbwyntiau. Fodd bynnag, mae diffyg ymchwil o hyd o safbwynt Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o'r DU, gan gyfyngu ar berthnasedd

yr adolygiad hwn i gyd-destun polisi'r DU. Roedd y crynodeb tystiolaeth ansoddol hefyd yn ceisio cynnal amrywiaeth mewn safbwyntiau drwy ddadansoddi nifer fwy o astudiaethau nag sy'n nodweddiadol o grynodeb ansoddol. Fodd bynnag, roedd hyn hefyd yn cyfyngu ar ei bŵer dehongli posibl. Penderfynwyd cyfyngu ar grynodeb dulliau ymyrryd yng nghyd-destun y DU er mwyn cynyddu perthnasedd a pha mor hawdd yw trosglwyddo tystiolaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu y bydd dulliau gweithredu pwysig a gwersi o'r dystiolaeth fyd-eang wedi cael eu colli yn yr adolygiad hwn. Fel adolygiadau systematig eraill, yn enwedig adolygiadau cyflym o dystiolaeth, er gwaethaf gwneud yr ymdrech orau bosibl i gynnal chwiliad trylwyr a sensitif, mae'n anochel y bydd rhai astudiaethau'n cael eu methu'n anfwriadol. Mae hyn yn arbennig o wir am ddata perthnasol sy'n fwy tebygol o gael ei ganfod mewn adroddiadau, a gaiff eu canfod â llaw yn hytrach na drwy chwilio mewn cronfeydd data.

7 Cyfeiriadau

7.1 Cyfeiriadau sydd wedi'u cynnwys yn y crynodeb

**Cafodd adolygiadau â sêr eu cynnwys yn y crynodeb o'r canfyddiadau a nodwyd ym mhennod pedwar a phennod pump.*

Agbenyega, J., a Peers, C. (2010). Early Childhood Inclusion: A Silver Lining in the Dark Clouds for African Immigrant Children?. *International Journal of Whole Schooling*, 6(2), 46-58.

*Albakri, M., Basi, T., Davies, M., Forsyth, E., Hopwood, V., Patel, R., Skipp, A., a Tanner, E. (2018). *Take-up of free early education entitlements*. (Adroddiad ymchwil).

Barglowski, K., a Pustulka, P. (2018). Tightening early childcare choices – gender and social class inequalities among Polish mothers in Germany and the UK. *Comparative Migration Studies*, 6(1).

Beatson, R., Molloy, C., Fehlberg, Z., Perini, N., Harrop, C., & Goldfeld, S. (2022). Early childhood education participation: A mixed-methods study of parent and provider perceived barriers and facilitators. *Journal of Child and Family Studies*, 31(11), 2929-2946.

Blanden, J., Del Bono, E., McNally, S., a Rabe, B., 2016. Universal pre-school education: The case of public funding with private provision. *The Economic Journal*, 126(592), tt.682-723.

Bojarczuk, S. (2022). Local migrant kin or floating grandmother? Reflections on mobility and informal childcare support strategies among Polish migrants in Ireland. *Global Networks*, 23(2), 444-458.

Bowes, J., Kitson, R., Simpson, T., Reid, J., Smith, M., Downey, B., a Pearce, S. (2011). *Child care choices of Indigenous families*. Bow

Busch, J., Bihler, L.M., Lembcke, H., Buchmüller, T., Diers, K., & Leyendecker, B. (2018). Challenges and Solutions Perceived by Educators in an Early Childcare Program for Refugee Children. *Frontiers in Psychology*, 9.

Campbell, T., Gambaro, L., a Stewart, K., 2018. "Universal" early education: Who benefits? Patterns in take-up of the entitlement to free early education among three-year-olds in England. *British Educational Research Journal*, 44(3), tt.515-538.

*Craig, G., Adamson, S., Ali, N., Ali, S., Atkins, L., Dadze-Arthur, A., Elliott, C., McNamee, S., a Murtuja, B. (2007). *Sure Start and black and minority ethnic populations*. Cyhoeddiadau'r Adran Addysg a Sgiliau.

De Gioia, K. (2015). Immigrant and Refugee Mothers' Experiences of the Transition into Childcare: A Case Study. *European Early Childhood Education Research Journal*, 23(5), 662-672.

Ebbeck, M.A., a Dela Cerna, C.H. (2007). A Study of Child Rearing Practices amongst Selected, Sudanese Families in South Australia: Implications for Child Care Service Selection. *Early Childhood Education Journal*, 34(5), 307-314.

Edwards, M.J. (2018). *Everybody is just manchester: mothers' perspectives on (non)engagement with services as a lens to trouble a neoliberal equality discourse in early years policy*. [Traethawd hir doethurol, Prifysgol Metropolitan Manceinion].

Fjällström, S., Karila, K., a Paananen, M. (2020). A Matter of Universalism? Rationalities of Access in Finnish Early Childhood Education and Care. *Nordic Journal of Studies in Educational Policy*, 6(3), 207-218.

Fleer, M. (2004). The Cultural Construction of Family Involvement in Early Childhood Education: Some Indigenous Australian Perspectives. *Australian Educational Researcher*, 31(3), 51-68.

Frankowicz, A. (2007). *Networking care—immigrant women's access to childcare*. [Traethawd hir doethurol, Prifysgol Ryerson].

Garvis, S. (2021). An Explorative Study of Skilled Immigrant Mothers' Perspectives toward Swedish Preschools. *Journal of Research in Childhood Education*, 35(3), 389-398.

Grace, R., a Trudgett, M. (2012). It's not rocket science: The perspectives of Indigenous early childhood workers on supporting the engagement of Indigenous families in early childhood settings. *Australasian Journal of Early Childhood*, 37(2), 10-18.

Graham, K., & Underwood, K. (2012). The reality of rurality: Rural parents' experiences of early years services. *Health & Place*, 18(6), 1231-1239

Guilfoyle, A., Saggars, S., Sims, M., a Hutchins, T. (2010). Culturally strong childcare programs for Indigenous children, families and communities. *Australasian Journal of Early Childhood*, 35(3), tt.68-76.

Hamm, T., 2010. Examining 'Social Investment' Policy in a Multi-Ethnic Sure Start Area: Staff Perspectives. *Social Policy & Society*, 9(4), pp.503-514.

Hare, J. a Anderson, J. (2010). Transitions to early childhood education and care for indigenous children and families in Canada: Historical and social realities. *Australasian Journal of Early Childhood**, 35(2), tt.19-27.

*Harries, S., Lane, J., Lewis, S., a Stedman, K. (2023). *Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 5 (Medi 2021 i Awst 2022)*. Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusor-cynnig-gofal-plant-i-gymru-blwyddyn-5> [Darllenwyd ddiwethaf 11 Mehefin 2024].

Hughes, B. a Jones, K., (2021). *Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio ar benderfyniadau rhieni ynghylch gofal plant ac addysg gynnar*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Hopkins, L., Lorains, J., Issaka, A., a Podbury, R. (2017). How does 'community' facilitate early childhood service use in a multicultural Australian suburb?. *Journal of Early Childhood Research*, 15(1), tt.3-16.

Jackiewicz, S., Saggars, S., a Frances, K. (2011). Equity of access: Requirements of Indigenous families and communities to ensure equitable access to government-approved childcare settings in Australia. *Australasian Journal of Early Childhood*, 36(3), tt.100-108.

Klaus, S. M. (2019). Using cultural brokering strategies to improve the early childhood education of Roma, Gypsy and Traveller children: case studies from the UK and Serbia. Prifysgol Llundain, Coleg Prifysgol Llundain.

La Valle, I., Lewis, J., Crawford, C., Paull, G., Lloyd, E., Ott, E., Mann, G., Drayton, E., Cattoretti, G., Hall, A., a Willis, E. (2022). Implications of COVID for Early Childhood Education and Care in England. Canolfan Tystiolaeth a Gweithredu

Leske, R., Sarmardin, D., Woods, A., a Thorpe, K. (2015). What works and why?: Early childhood professionals' perspectives on effective early childhood education and care services for Indigenous families. *Australasian Journal of Early Childhood*, 40(1), tt.109-118.

Lie, M. L. S. (2010). Across the oceans: childcare and grandparenting in UK Chinese and Bangladeshi households. *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 36(9), tt.1425-1443.

Marshall, L., Chidley, S., Lubian, K., Aleksejunaite, M., a Marcheselli, F. (2019) 'Survey of Childcare and Early Years Providers 2019 Technical report', *National Centre for Social Research*,

Mhic Mhathúna, M., a Nic Fhionnlaoich, F. (2021). Why parents chose to send their children to Irish-medium immersion preschools: learning from parental choice strategies in Celtic countries. *European Early Childhood Education Research Journal*, 29(3), tt.441-454.

Miller, M. G. (2015). Consultation with Aboriginal and Torres Strait Islander People in Early Childhood Education: The Impact of Colonial Discourses. *Australian Educational Researcher*, 42(5), tt.549-565.

Mitchell, L., ac Ouko, A. (2012). Experiences of Congolese refugee families in New Zealand: Challenges and possibilities for early childhood provision. *Australasian Journal of Early Childhood*, 37(1), pp.99-107.

Mitchell, L., a Meagher-Lundberg, P. (2017). Brokering to Support Participation of Disadvantaged Families in Early Childhood Education. *British Educational Research Journal*, 43(5), tt.952-967.

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, (2020). *Supporting disadvantaged families through free early education and childcare entitlements in England*. Adroddiad gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Lloegr

O'Callaghan, C., Kearns, R., Woodland, L., Dharmagesan, G., a Harris-Roxas, B. (2023). Extended caregiving arrangements in families from Chinese backgrounds: A qualitative research study from Sydney, Australia. *Children and Youth Services Review*, 145, tt.

Pastori, G., Mussi, A., Capelli, I., a Francot, R. J. R. M. (2021). Moroccan immigrant mothers' experiences of Italian preschool institutions. A mixed-method study. *Contemporary Social Science*, 16(4), tt.432-447.

Patel, S., a Agbenyega, J. (2013). How we view Australian early childhood education practice: Indian migrant parents' perspectives. *Australasian Journal of Early Childhood*, 38(1), pp.49-54.

Llywodraeth yr Alban. (2021). *Scottish Study of Early Learning and Childcare: Phase 1 Report, Phase 2 Report. Phase 3 Report*. Llywodraeth yr Alban

Llywodraeth yr Alban. (2022). *Parents' views and use of early learning and childcare in Scotland, 2022*. Llywodraeth yr Alban. Ar gael yn: <http://www.gov.scot/ISBN/9781805251712/documents/>

Scholz, A. (2021). Moderating Uncertainty: The Reception of Refugee Children in the German Early Childhood Education and Care Sector. *Journal of Refugee Studies*, 34(4), tt.3665-3687.

Shuker, M. J., a Cherrington, S. (2016). Diversity in New Zealand Early Childhood Education: Challenges and Opportunities. *International Journal of Early Years Education*, 24(2), tt.172-187.

Tobin, J. (2020). Addressing the Needs of Children of Immigrants and Refugee Families in Contemporary ECEC Settings: Findings and Implications from the Children Crossing Borders Study. *European Early Childhood Education Research Journal*, 28(1), tt.10-20.

Trappolini, E., Barbiano di Belgiojoso, E., a Rimoldi, S. M. L., a Terzera, L. (2024). Migrants' choices pertaining to informal childcare in Italy and France: A complex relationship between the origin and destination countries. *Population, Space and Place*, 30(1), tt.e2736.

Wall, K., a Jose, J. S. (2004). Managing work and care: a difficult challenge for immigrant families. *Social Policy and Administration*, 38(6), tt.591-621.

Wong, M. (2014). Geographies and strategies of caregiving among skilled Ghanaian migrant women. *Womens Studies International Forum*, 42, tt.28-43.

Wood, M. (2021). Childcare costs and Universal Credit: awareness, affordability and the challenge of an embedded system. *Journal of Poverty and Social Justice*, 29(2), tt. 203-220

Wu, M. Y., a Poveda, A. D. (2022). Harsh choices: Chinese migrant families' childcare strategies in Spain. *Journal of Ethnic and Migration Studies*. tt.936-953.

Llywodraeth Cymru (2011) Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Adroddiad Effaith. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. (2021). Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: Blwyddyn 4 (Canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg). Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusor-cynnig-gofal-plant-i-gymru-blwyddyn-4-canfyddiadau-syn-dod-ir-amlwg-html> [Darllenwyd ddiwethaf 12 Mehefin 2024].

7.2 Cyfeiriadau eraill a nodwyd yn yr adolygiad

Yr Adran Addysg. (2023). Education provision: Children under 5 years of age, reporting year 2023. <https://explore-education-statistics.service.gov.uk/find-statistics/education-provision-children-under-5>

Dickson, K., (2019.) *Systematic reviews to inform policy: institutional mechanisms and social interactions to support their production* (Doctoral dissertation, UCL (Coleg Prifysgol Llundain).

Eadie, P., Page, J., Levickis, P., Elek, C., Murray, L., Wang, L., a Lloyd-Johnsen, C. (2022). Domains of quality in early childhood education and care: A scoping review of the extent and consistency of the literature. *Educational Review*, 1-30.

European commission/eacea/Eurydice (2019) Key Data on Early Childhood Education and Care in Europe – 2019 Edition. Luxembourg: Publications Office of the European Union.

- Furenes, M. I., Andresen, A. K., Løkken, I. M., Moser, T., Nilsen, T. R., a Dahl, A.-L. S. (2023). Norwegian Research on ECEC Quality from 2010 to 2021—A Systematic Scoping Review. *Education Sciences*, 13(6), 600.
- Melhuish, E. a Gardiner, J., 2019, Mai. Structural factors and policy change as related to the quality of early childhood education and care for 3–4 year olds in the UK. In *Frontiers in education* (Cyfrol 4, t. 35). Frontiers Media SA.
- Motiejunaite, A. (2021). Access and quality of early childhood education and care in Europe: An overview of policies and current situation. *IUL Research*, 2(4), 64-80.
- Murano, D., Sawyer, J. E., a Lipnevich, A. A. (2020). A meta-analytic review of preschool social and emotional learning interventions. *Review of Educational Research*, 90(2), 227-263.
- Oliver, S., Dickson, K. a Bangpan, M., 2015. Systematic reviews: making them policy relevant. A briefing for policy makers and systematic reviewers. Canolfan EPPI, Uned Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol, Sefydliad Addysg UCL, Coleg Prifysgol Llundain, Llundain.
- Petitclerc, A., Côté, S., Doyle, O., Burchinal, M., Herba, C., Zachrisson, H.D., Boivin, M., Tremblay, R.E., Tiemeier, H., Jaddoe, V. a Raat, H., (2017). Who uses early childhood education and care services? Comparing socioeconomic selection across five western policy contexts. *International Journal of Child Care and Education Policy*, 11, tt.1-24.
- Richter, L. M., Desmond, C., Behrman, J., Britto, P., Daelmans, B., Devercelli, A. E., Gertler, P., Hoddinott, J., Fawzi, W., Fink, G., Lombardi, J., Boo, F. L., Lu, C., Lye, S., Nores, M., a Yousafzai, A. (2018). G20's Initiative for Early Childhood Development. *Lancet*, 392(10165), 2695-2696.
- Sandelowski, M. a J. Barroso (2007). Handbook for Synthesizing Qualitative Research. New York, Springer Publishing Company.
- Schmutz, R., 2023. Is universal early childhood education and care an equalizer? A systematic review and meta-analysis of evidence. *Research in Social Stratification and Mobility*, t.100859.
- Van Huizen, T. a Plantenga, J., (2018). Do children benefit from universal early childhood education and care? A meta-analysis of evidence from natural experiments. *Economics of Education Review*, 66, tt.206-222.
- Von Suchodoletz, A., Lee, D. S., Henry, J., Tamang, S., Premachandra, B., a Yoshikawa, H. (2023). Early childhood education and care quality and associations with child outcomes: A meta-analysis. *Plos one*, 18(5), e0285985.
- UNICEF, 2018. Nurturing care for early childhood development: a framework for helping children survive and thrive to transform health and human potential. *Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd*.
- Llywodraeth Cymru (2023) *Ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn raddol*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ehangur-ddarpariaeth-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-yn-raddol> (Darllenwyd: 27 Mehefin 2024).
- Wood, J., Neels, K. a Maes, J., (2023). A closer look at demand-side explanations for the Matthew effect in formal childcare uptake in Europe and Australia. *Journal of European Social Policy*, 33(4), tt.451-468.

Rhan II: Disgrifiad technegol o'r adolygiad cyflym o dystiolaeth

8 Dulliau

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddir yn fwy manwl; e.e. y dull a ddefnyddir i chwilio am astudiaethau, eu nodi, eu dadansoddi a'u cyfosod i ateb cwestiynau'r adolygiad manwl. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r Canllawiau Eitemau Adrodd a Ffefrir ar gyfer Adolygiadau Systematig a Dadansoddiadau Meta (PRISMA) i gefnogi tryloywder wrth adrodd ond mae wedi'i addasu i ystyried y dull adolygu systematig cyflym, nid y dull llawn.

8.1 Math o adolygiad cyflym o dystiolaeth: adolygiad tri cham

Gan ddefnyddio dull adolygu ailadroddol i asesu a oes digon o lenyddiaeth i ateb y cwestiwn adolygu manwl, fe wnaethom gynnal yr adolygiad fesul cam. Yn gyntaf, er mwyn cyfrannu at ddatblygu'r protocol, fe wnaethom gynnal ymarfer cwmpasu byr ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023. Nod yr ymarfer cwmpasu oedd nodi unrhyw adolygiadau systematig presennol ar fynediad at addysg gofal plant yn y blynyddoedd cynnar. Roedd cynnal cipolwg cychwynnol o'r llenyddiaeth yn ein galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus i ateb y cwestiwn cyntaf am natur a maint y llenyddiaeth. Roedd hyn yn sail i'r trydydd cam i ateb pob un o gwestiynau'r adolygiad manwl.

8.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae ymgynghoriadau â Llywodraeth Cymru, yn enwedig gyda'r tîm Plant, Teuluoedd a Gofal Plant, wedi llywio datblygiad y prosiect hwn, gyda chwestiynau ymchwil wedi'u cytuno gyda'i gilydd. Cynhaliwyd rhagor o sgysiau â rhanddeiliaid gyda thîm Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru i lywio'r cwmpas. Cynhaliwyd dau weithdy gyda llunwyr polisi a mentoriaid cymunedol â phrofiad uniongyrchol er mwyn llywio ein dealltwriaeth gychwynnol o rwystrau a galluogwyr i fynediad at ECEC ymhlith teuluoedd ethnig leiafrifol.

8.3 Adnabod yr astudiaeth

Nodwyd astudiaethau a gynhwyswyd yn yr adolygiad hwn o fap systematig o lenyddiaeth empirig a oedd yn ceisio nodi natur a hyd a lled ymchwil sylfaenol ar gynyddu mynediad at addysg a gofal plentyndod cynnar gan gymunedau ethnig leiafrifol neu grwpiau difreintiedig eraill yn y DU a systemau lles cymdeithasol cyfatebol. I lunio'r map systematig hwn, cynhaliwyd chwiliadau yn y cronfeydd data canlynol: ASSIA (Proquest); AEI (Proquest); BEI (EBSCHO), Child Development & Adolescent Studies (EBSCO) ERIC (proquest); Econlit; Sociological Abstracts (Proquest); Dissertation Abstracts (Proquest). Gwnaethom hefyd chwilio am adnoddau ar-lein a gwefannau penodol i bynciau a gwefannau rhanbarthol (e.e. yr adran Addysg), chwiliadau ffocws o Google a Google Scholar Citation, a chysylltu ag arbenigwyr yn y maes.

Datblygodd a gweithredodd yr adolygwyr arweiniol y strategaeth chwilio (RME, KD). Roedd y chwiliad wedi'i strwythuro o amgylch tri chysyniad yr oedd angen iddynt fod yn bresennol ym mhob un o ddyfyniadau'r astudiaeth: 1) Math o leoliad, 2) pwnc a 3) Lleoliad daearyddol. Lle bo'n bosibl,

roedd y chwiliadau cronfa ddata wedi'u cyfyngu i ddyfyniadau a gyhoeddwyd yn Saesneg. Defnyddiwyd cyfystyron a geiriau amgen ar gyfer pob cysyniad i chwilio teitlau, crynodebau, geiriau allweddol, a meysydd geirfa rheoledig yn y cronfeydd data i gael ystod eang o ymchwil sylfaenol. Datblygwyd y chwiliad fel rhan o'r ymarfer cwmpasu ERIC a'i gyfieithu i gronfeydd data eraill fel y bo'n briodol.

Dewiswyd astudiaethau yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn nhabl 7.1

Tabl 8.1: Meini prawf ar gyfer cynnwys ac eithrio astudiaethau

A. Meini prawf i'w cynnwys yn y map systematig.

Cynnwys astudiaethau:		Peidio â chynnwys astudiaethau:
Defnyddiwyd yn y teitl a'r crynodeb		
EX1: Iaith	Cyhoeddwyd yn Saesneg	Heb ei gyhoeddi yn Saesneg
EX2: ECEC	Ymchwilio i fynediad a/neu ddefnydd o ECEC	Ymchwilio i fynediad a/neu ddefnydd o ECEC
EX3: Lleoliad Daearyddol	Cyhoeddwyd yn Awstralia, Canada, Denmarc, y Ffindir, yr Almaen, Gwlad yr Iâ, yr Iseldiroedd, Seland Newydd, y DU	Heb ei gyhoeddi yn Awstralia, Canada, Denmarc, y Ffindir, yr Almaen, Gwlad yr Iâ, yr Iseldiroedd, Seland Newydd, y DU
Wedi'i roi ar waith fel testun llawn i'w gynnwys yn y Map		
EX4: Poblogaeth	Canolbwyntio ar grwpiau difreintiedig ac ethnig leiafrifol	Ddim yn canolbwyntio ar grwpiau difreintiedig ac ethnig leiafrifol
EX5: Dyluniad yr astudiaeth	Astudiaethau'n casglu data sylfaenol ansoddol neu feintiol	Peidio â chynnal ymchwil sylfaenol empirig
Defnyddio'r testun llawn i ateb cwestiynau am rwystrau a galluogwyr (RQ2)		
EX6: Data Adrodd: barn	Casglu ac adrodd ar ddata am farn rhieni neu ddarparwyr am rwystrau a galluogwyr o ran cael mynediad at ECEC	Peidio â chasglu ac adrodd ar ddata am farn rhieni neu ddarparwyr am rwystrau a ffactorau galluogi o ran cael mynediad at ECEC
Defnyddio'r testun llawn i ateb cwestiynau am ymyriadau i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan (RQ3)		
EX7: Data adrodd: Ymyriadau yn y DU	Casglu ac adrodd ar ddata ar ddulliau a pholisïau ymyrryd o'r Deyrnas Unedig	Peidio â chasglu ac adrodd ar ddata ar ddulliau a pholisïau ymyrryd o'r Deyrnas Unedig

Iaith: Roeddem yn canolbwyntio ar astudiaethau a gyhoeddwyd yn Saesneg

Addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar: At ddibenion yr adolygiad hwn, mae ECEC yn cyfeirio at ddarparu gofal ac addysg i blant o'u geni hyd at ddechrau'r ysgol gynradd. Mae'n cynnwys ystod

eang o wasanaethau ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys gofal plant, addysg cyn-ysgol, a mathau eraill o ddysgu yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r ffocws ar gefnogi datblygiad plant mewn meysydd gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol yn ystod eu blynyddoedd cynnar. Mae'n aml yn ddull cynhwysfawr sy'n cynnwys gofal, addysg a datblygiad plant ac mae hefyd yn cyfeirio at bwysigrwydd darparu amgylchedd o feithrin sy'n cefnogi dysgu a lles plant o'u dyddiau cynnar drwy eu blynyddoedd cyn-ysgol (UNESCO).

Mae mynediad at addysg a gofal cynnar i blant yn cyfeirio at wella cyfraddau cyfranogi ac ymgysylltiad ystyrion ag ECEC. Gallai gynnwys strategaethau a dulliau i gynyddu mynediad ochr yn ochr â dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r galluogwyr sy'n cyfrannu at gynyddu cyfranogiad ac annog mwy o deuluoedd i gofrestru eu plant mewn cynlluniau gofal plant ffurfiol, cyn-ysgol neu ddysgu yn y blynyddoedd cynnar.

Lleoliad daearyddol: Roeddem yn canolbwyntio ar astudiaethau a gynhaliwyd yn y DU a systemau lles cyfatebol. Bydd y rhain yn cynnwys: Awstralia, Gwlad Belg, Canada, Denmarc, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Gwlad Groeg, Gwlad yr Iâ, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, Seland Newydd, Norwy, Sbaen, Sweden, y Swistir.

Poblogaeth: Er ein bod yn cydnabod nad oes term sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol i ddisgrifio'r amrywiaeth o grwpiau a allai brofi anfantais mewn cymdeithas, rydym wedi defnyddio'r diffiniadau canlynol:

- **Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol:** Fe wnaethom ddilyn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wrth ddefnyddio'r term 'Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol' ac 'ethnig leiafrifol' fel llaw fer.
- **Grwpiau dan anfantais:** poblogaethau neu gymunedau sy'n profi gwahaniaethau cymdeithasol, economaidd neu iechyd o'u cymharu â'r boblogaeth ehangach. Mae ehangu'r diffiniad o anfantais y tu hwnt i amddifadedd economaidd-gymdeithasol hefyd yn siarad â rôl ECEC wrth gynyddu mathau o allgáu cymdeithasol ar lefel unigol, teuluol a chymdeithasol.

Dyluniadau'r astudiaeth: fe wnaethom gynnwys astudiaethau cynradd yn casglu data ansoddol neu feintiol ar safbwyntiau, profiadau, agweddau a chanfyddiadau o'r hyn a fyddai'n cefnogi'r nifer sy'n manteisio ar strategaethau a mentrau a gwerthuso canlyniadau er mwyn cynyddu'r nifer sy'n eu defnyddio.

1.5 Dewis astudiaeth

Cafodd canlyniadau chwilio eu dad-ddyblygu a'u mewnforio i'r meddalwedd adolygu systematig, EPPI-Reviewer 4 (Thomas et al. 2010), a ddefnyddiwyd hefyd i reoli holl gamau dilynol yr adolygiad a ddisgrifir isod. Treialwyd y meini prawf eithrio drwy gymharu penderfyniadau mewn grwpiau o ddau neu fwy o adolygwyr gan ddefnyddio taflenni gwaith gyda nodiadau cyfarwyddyd ar sampl fach o gofnodion (er enghraifft, 10-20). Cafodd anghytundebau eu datrys drwy gonsensws a bydd unrhyw welliannau gofynnol i'r meini prawf yn cael eu gwneud a'u cofnodi mewn dogfen protocol weithredol. Cafodd sampl arall o gofnodion eu sgrinio gan adolygwyr yn annibynnol a datryswyd y gwahaniaethau drwy drafod neu ymgynghori â thrydydd adolygydd. Pan oedd y cytundeb yn ddigonol (90-95%) ar gyfer yr ail sampl hon, cafodd gweddill y dyfyniadau eu sgrinio gan un adolygydd. Cafodd cyfeiriadau eu sgrinio i ddechrau ar deitlau a chrynodebau a chafwyd

adroddiadau llawn ar gyfer y cyfeiriadau hynny y bernir eu bod yn bodloni'r meini prawf cynnwys neu lle nad oedd digon o wybodaeth o'r teitl a'r crynodeb i asesu perthnasedd. Roedd ail farn ar gael ar gyfer unrhyw astudiaeth lle nad oedd adolygydd yn siŵr a oedd yn gymwys ai peidio. Adroddir ar gofnod o'r broses sgrinio yn yr adroddiad hwn gan ddefnyddio'r diagram llif PRISMA.

8.4 Echdynnu data

Cafodd y data ei echdynnu mewn dau gam.

8.4.1 Cam un: mapio

I ddechrau, gwnaethom fapio'r llenyddiaeth oedd ar gael, gan geisio nodi natur a maint ymchwil sylfaenol ar gynyddu mynediad at addysg a gofal yn y blynyddoedd cynnar gan grwpiau ethnig leiafrifol neu grwpiau difreintiedig eraill yn y DU a systemau lles cymdeithasol cyfatebol. Roedd y cam cyntaf hwn yn cynnwys codau megis dyddiad, lleoliad daearyddol, poblogaeth a dyluniad astudio. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno yn yr atodiadau i'r adroddiad technegol.

8.4.2 Cam dau: adolygiad manwl

Roedd yr ail gam yn cynnwys codio ar gyfer nodau'r astudiaeth, a dulliau samplu a chasglu data, mathau o ECEC, yn ogystal ag echdynnu canlyniadau'r awduron a disgrifiad cryno o'u canfyddiadau. Trefnwyd yr olaf yn seiliedig ar waith Archambault et al. (2019) gan ddefnyddio fframwaith sy'n ystyried yr ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar fynediad at ECEC ar gyfer poblogaethau difreintiedig. Mae'r ffactorau hyn yn ystyried dwy broses bwysig: i) rhwystrau a galluogwyr ar lefel system a ii) sut gall teuluoedd unigol ymateb i rwystrau a ffactorau galluogi ar lefel system a rhyngweithio â nhw. Mae'r pum ffactor sy'n gysylltiedig yn cynnwys:

- Canfyddiad o Hygyrchedd ac Adnabod Angen Gofal Plant yn Weithredol
- Derbynioldeb a cheisio gofal plant yn weithredol
- Argaeledd ac estyn allan yn weithredol
- Fforddiadwyedd a mynediad gweithredol
- Priodoldeb ac ymgysylltiad gweithredol

Trialodd dau adolygydd (RME, KD) yr offer yn annibynnol. Yna codwyd pob astudiaeth yn annibynnol gan dri adolygydd (RME, KD, KB), a ddaeth i gytundeb i lunio cod terfynol y cytunwyd arno.

8.5 Asesu ansawdd a pherthnasedd astudiaethau

Roeddem wedi defnyddio dull symlach o werthuso ansawdd yn seiliedig ar adolygiadau EPPI-Centre blaenorol a gynhaliwyd i lywio adolygiadau tystiolaeth cyflym sy'n sensitif i amser. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio tair elfen i helpu i egluro'r broses o ddyrannu gwahanol bwysau i ganfyddiadau a chasgliadau gwahanol astudiaethau (Gough 2007). Mae'r pwysau tystiolaeth hwn yn ystyried cydlyniad methodolegol astudiaeth unigol a'u priodoldeb a'u perthnasedd polisi wrth ateb cwestiynau'r adolygiad. Roeddent yn seiliedig ar y canlynol:

A. Pa mor gadarn yw'r astudiaethau, e.e. y cydlyniad methodolegol mewnol, yn seiliedig ar yr astudiaeth yn unig. Roedd yr adnodd arfarnu beirniadol yn asesu ansawdd methodolegol pob astudiaeth mewn tri maes allweddol:

- (i) Nodi **nodau a rhesymeg** yr astudiaeth (e.e. i ba raddau y cânt eu hadrodd yn glir ac yn unol â'r dull casglu a dadansoddi data a ddefnyddiwyd)

- (ii) **Casglu data** (e.e. gan gynnwys camau a gymerwyd i gynyddu cywirdeb o ran samplu ansawdd a phriodoldeb yr offer i gasglu data)
- (iii) **Dadansoddi data** (e.e., pa dulliau a ddefnyddiwyd, ac a yw'r dadansoddiad yn ddibynadwy).

B. Pa mor briodol yw dyluniad a dadansoddiad yr ymchwil a ddefnyddir i ateb cwestiynau'r adolygiad

Barnwyd astudiaethau ar WoE B yn ôl y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth. I'w hystyried yn UCHEL ar astudiaethau WoE B sy'n ateb RQ2 ar y rhwystrau a'r galluogwyr sydd eu hangen i wneud y canlynol:

- i) Nodi eu bod wedi defnyddio dull 'cwestiwn agored' ar gyfer casglu data a/neu ddull sy'n dod i'r amlwg o ddadansoddi data a
- ii) Sicrhau bod y canfyddiadau'n seiliedig ar y data drwy ddarparu enghreifftiau o ddyfyniadau gan gyfranogwyr

Roedd nodi bod dull 'cwestiwn agored' yn ofyniad i astudiaethau gael eu barnu fel rhai sy'n defnyddio dull methodolegol a oedd yn sicrhau bod safbwyntiau, profiadau neu ddewisiadau cyfranogwyr yn cael eu sicrhau, roedd astudiaethau nad oeddent yn defnyddio'r dull hwn, yn cael eu barnu fel rhai isel ar sail y maen prawf hwn. Barnwyd bod astudiaethau a oedd yn defnyddio dull agored ond nad oeddent yn darparu data uniongyrchol o leisiau cyfranogwyr yn rhai canolig.

I'w ystyried yn UCHEL ar WoE B, roedd angen i astudiaethau sy'n ateb RQ3 sicrhau'r canlynol:

- i) darparu data ar blant, teuluoedd, cymunedau ethnig leiafrifol a/neu grwpiau difreintiedig
- ii) adrodd ar eu dull gweithredu a darparu dadansoddiad o'u sampl

Barnwyd bod yr astudiaethau'n isel os nad oeddent yn bodloni meini prawf un a chanolig os oeddent yn bodloni maen prawf dau yn unig.

C. Perthnasedd pwnc yr astudiaeth i ateb y cwestiwn adolygu

Barnwyd WoE C yn ôl pa mor eang neu gul oedd y ffocws o ran poblogaeth a math o brofiadau, persbectif a dewisiadau a gasglwyd ac a gofnodwyd. Roeddem eisiau gwybod am grŵp penodol o boblogaethau er mwyn i ni allu penderfynu beth sy'n berthnasol iddyn nhw. Roeddem hefyd eisiau gwybod am amrywiaeth o brofiadau ac effeithiau er mwyn i ni allu deall beth sy'n bwysig i'r boblogaeth honno, yn enwedig pwysigrwydd cymharol dulliau penodol o gynyddu mynediad at ECEC. Felly, barnwyd bod nifer yr astudiaethau sydd â ffocws cul ar y boblogaeth ond sy'n canolbwyntio'n eang ar amrywiaeth o brofiadau yn uchel. Mae astudiaethau y bernir eu bod yn rhai canolig yn cyfyngu rhywfaint ar ffocws y boblogaeth (e.e. dyddiad rhy eang ac anodd ei ddatgyfuno) neu gyfyngiad ar ehangder profiadau/canlyniadau. Roedd gan astudiaethau a ystyriwyd yn rhai isel boblogaeth eang a ffocws cul.

D. Barn gyffredinol am bwysau'r dystiolaeth

Gwnaethpwyd dyfarniad cyffredinol gan ystyried y tri dyfarniad a wnaethpwyd ar gyfer WoE A, B a C. Defnyddiwyd sgôr gyffredinol uchel i adlewyrchu astudiaethau a oedd wedi'u sgorio'n uchel ar dair elfen unigol WoE A, a Maen Prawf B a C. Teimlwyd bod priodoldeb dyluniad yr ymchwil a

pherthnasedd yr astudiaeth ar gyfer ateb cwestiynau'r adolygiad yn arbennig o bwysig ar gyfer yr adolygiad hwn ac ystyried gofynion cwestiynau'r adolygiad i nodi beth oedd yn bwysig i gyfranogwyr. Felly, penderfynwyd dangos gwahaniaeth rhwng astudiaethau canolig ac isel yn ôl sgôr astudiaethau unigol ar sail y ddau faen prawf hyn, sef WoE B a C. Barnwyd bod unrhyw astudiaeth a gafodd sgôr isel ar gyfer WoE B neu C - yn gyffredinol. Mae'r tabl isod yn dangos sut y gwnaethpwyd penderfyniadau ar gyfer sgoriau cyffredinol.

Barn gyffredinol	Gofynion
Uchel	Astudiaethau sy'n uchel ar A a C
Canolig	Astudiaethau nad ydynt yn cael eu sgorio'n uchel ar bob cyfrif ond nad ydynt wedi'u sgorio'n isel ar B a/neu C
Isel	Astudiaethau sy'n sgorio'n isel ar B neu/a C

8.6 Synthesis

8.6.1 Dull synthesis

Fe wnaethom benderfynu cynnwys ystod eang o astudiaethau yn ein hadolygiad o rwystrau a hwyluswyr i ateb y cwestiwn ymchwil yn gynhwysfawr. Er ein bod wedi cyfyngu ar yr astudiaethau yn ôl poblogaeth a lleoliad daearyddol, roedd y nifer terfynol ($n=x$) yn dal yn fwy nag arfer ar gyfer synthesis ansoddol. Oherwydd maint y data, mae mabwysiadu dadansoddiad dyfnach, mwy dehongliadol (fel y disgrifir gan Sandelowski a Barroso 2007) o fewn ein hamserlen yn anodd. Gan roi cyd-destunau polisi amrywiol ar draws gwledydd, nid oedd synthesis rhyngwladol manwl o ymyriadau i annog cyfranogiad ECEC hefyd yn ymarferol. Felly, er mwyn cael cydbwysedd rhwng ehangder a dyfnder, fe wnaethom leihau ein ffocws yn y synthesis hwn i ymyriadau yn y DU. I ddechrau, roeddem yn bwriadu defnyddio fframwaith Archambault et al. ar gyfer y synthesis ansoddol, fel yr amlinellir yn ein protocol. Fodd bynnag, ar ôl yr ymarfer mapio, roedd yn amlwg y byddai angen rhyw elfen o ddehongli a dadansoddi i ddod â'r data o bob synthesis at ei gilydd mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Fe wnaethom benderfynu felly ddefnyddio synthesis fframwaith, dull a ddefnyddiwyd mewn adolygiadau EPPI-Centre blaenorol (Lorenc 2008; Oliver 2008), ar gyfer y ddau synthesis.

8.6.2 Synthesis fframwaith

Gall synthesis fframwaith ddarparu ar gyfer amrywiaeth o fathau o astudiaeth a dyluniadau a gellir ei gynnal yn gymharol gyflym i gefnogi synthesis amserol data i lywio penderfyniadau polisi. Gwnaethom ddefnyddio'r un dull ar gyfer y synthesis tystiolaeth ansoddol ag y gwnaethom ar gyfer synthesis naratif ymyriadau ond gan ddefnyddio setiau data gwahanol. Lle bo'n bosibl, aethom ati i echdynnu dyfyniadau gair am air gan gyfranogwyr yr astudiaeth, data rhifol ar y nifer sy'n cymryd rhan, a disgrifiad awdur o ganfyddiadau adrannau canlyniadau astudiaethau a gynhwyswyd sy'n berthnasol i boblogaethau o ddi-ddordeb (e.e. poblogaethau ethnig leiafrifol a difreintiedig). Darllenwyd gwybodaeth a adroddwyd yn y drafodaeth a'r casgliad hefyd wrth echdynnu data. Os oedd yr adrannau hyn yn cynnwys unrhyw ddata neu fewnwelediadau newydd, cawsant hefyd eu hechdynnu a'u defnyddio i lywio'r synthesis. Yn ystod y broses hon, cafodd data eu paru â'r fframwaith. Gan fod y fframwaith yn cynnwys meysydd eang, gwnaethom hefyd ddefnyddio dull synthesis thematig llinell wrth linell i nodi is-themâu. Roedd hyn yn galluogi'r fframwaith i gael ei

ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer trefnu'r synthesis ond roedd yn galluogi'r synthesis i gael ei ddatblygu ymhellach drwy gyflwyno is-themâu sy'n benodol i bob cwestiwn adolygu. Er enghraifft, nodi profiadau a safbwyntiau pobl (e.e. ymddiriedaeth a phryderon) neu ddulliau penodol (e.e. ymweliad cartref)

